

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Medi 2014

Rhif 447

50c


Haf i'w Gofio

Cofio'r Rhyfel yn Fflandrys



Wedi ymgyrch dros gyfnod o dair blynedd, dadorchuddiwyd cerflun o'r Ddraig Goch fel cofeb i filwyr o Gymru a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yn benwythnos bythgofiadwy i un o ddisgyblion Ysgol Llanllechid, sef Gwydion Rhys, a welir o flaen y gofeb drawiadol. Ceir rhagor o'r hanes ar dudalen 13.

Siôn Guto



Ein cofion at Sion Guto sydd wedi derbyn llawdrinniaeth lwyddiannus yn ystod yr haf. Gweler tudalen 13.

Côr y Dyffryn

Bydd Côr y Dyffryn yn ail-ymgynnull ar nos Sul 28 Medi, er mwyn dechrau ymarfer ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol, sydd i'w gynnal yng Nghapel Jerusalem, Bethesda, nos Sul, 21 Rhagfyr.

Croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn yr ymarfer cyntaf yma am 6.15.p.m.

Canlyniadau Rhagorol Ysgol Dyffryn Ogwen


Roedd canlyniadau arholiadau allanol yr ysgol eleni yn ardderchog. Cafodd 95% o'r disgyblion yr hyn sy'n cyfateb i 5 gradd A*-C. Ni adawodd yr un disgybl heb ennill cymhwyster. Roedd y canlyniadau hyd yn oed yn well na dwy flynedd yn ôl, pan ddyfarnodd Estyn fod Ysgol Dyffryn Ogwen yn ysgol ragorol. Mae'r canlyniadau yn glod i ymroddiad y disgyblion, i gefnogaeth eu rhieni, ac i waith caled yr athrawon wrth baratoi'r disgyblion. Roedd y canlyniadau yn dda iawn ar draws yr ystod gallu, ond mae'n rhaid rhoi clod arbennig i dri disgybl – Cai Dickinson, Elin Cain a Nicholas Johns am ganlyniadau ardderchog. Canlyniad hyn yw bod tua hanner y flwyddyn wedi dychwelyd i'r Chweched Dosbarth.

Roedd y canlyniadau Lefel A hefyd yn dda iawn gyda phob myfyriwr yn llwyddo i fynd i'r coleg neu ar gwrs o'u dewis.



Cara Thomas

Rhaid llongyfarch dau yn arbennig am ganlyniadau rhagorol – Cara Thomas ac Adam Hughes. a enillodd y ddau 5 gradd A ac un radd A* rhyngddynt.



Adam Hughes

Mae'r ddau yn mynd i Brifysgol Caerdydd – Cara i astudio Gwyddoniaeth ac Adam i ddilyn cwrs yn y Gyfraith.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts
hylaw@btinternet.com

600965

Ieuan Wyn
cylch@tiscali.co.uk

600297

Lowri Roberts
l.roberts11@btinternet.com

600490

Dewi Llewelyn Siôn
dewision@hotmail.co.uk

07901
913901

Fiona Cadwaladr Owen

601592

Fiona
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees
sian_esmor@btinternet.com

600427

Neville Hughes
nev_hughes@btinternet.com

600853

Dewi A Morgan
dewimorgan@live.co.uk

602440

Trystan Pritchard
trystanrp1@gmail.com

07402
373444

Walter W Williams
waltermenai@yahoo.co.uk

601167

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Lowri Roberts a Walter W. Williams.

Golygyddion mis Hydref fydd Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd, Tregarth, LL57 4NY (01248 600490) l.roberts11@btinternet.com a Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3 NN. (01248 601167) waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 1 Hydref, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 16 Hydref, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Medi

22 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00.

24 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30

25 Merched y Wawr Bethesda.
Hywel Gwynfryn. Cefnfaes am 7.00.

27 Bore Coffi Eglwys St. Anne a St. Mair.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

30 Cangen Dyffryn Ogwen Plaid Cymru.
Cefnfaes am 7.00.

Hydref

02 Sefydliad y Merched Carneddi. Noson
gydag Angharad Huws. Cefnfaes am 7.00.

04 Bore Coffi Plaid Cymru.
Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00.

06 Merched y Wawr Tregarth. Popeth Neis /
Dwylo Prysur. Festri Shiloh am 7.00.

08 Cyfarfod Blynnyddol Canolfan Rachub.
7.30.

10 Noson yng nghwmni Dafydd Iwan.
Clwb Criced Bethesda am 7.30.

11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30

16 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

22 Cyfarfod Chwarter Cyfundeb
Annibynwyr Gogledd Arfon.
Capel Carmel am 7.00

22 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.

25 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Awst

£30 (37) Medi Williams,
Stad Coetmor, Bethesda.

£20 (67) Sheila V. Owen,
Dolhelyg, Talybont.

£10 (149) Minnie H. Lewis, Porthaethwy.

£5 (33) Eileen Evans,
Rhos y Nant, Bethesda.

Gwobrau Medi

£30 (34) Nicola Wyn Hughes,
Sŵn y Nant, Bethesda.

£20 (15) A. Ray Davies, Caerdydd.

£10 (147) Olwen Williams,
Ffordd Carneddi, Bethesda.

£5 (184) Enid Roberts,
Cae'r Wern, Tregarth.

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

£20.00 Er cof annwyl am Eric Jones,
6 Cefn Cwlyn, Braichmelyn, oddi
wrth Elna, Siân a Gwyn.

£10.00 Er cof am Raymond Williams, gynt
o 3 Rhes Douglas, Bethesda, a
fyddai wedi bod yn 75 mlwydd oed
ar 16 Medi, oddi wrth Barbara a'r
teulu.

£10.00 Elwyn Parry, Yr Wyddgrug.

£5.00 Rita Bullock, Maes y Garnedd,
Bethesda.

£4.00 John Ellis Jones, Sling.

£20.00 Di- enw Llandygái.

£10.00 Er cof am Helen Ruth Eleri
Williams, chwaer a mam annwyl, a
fu farw'n 63 oed ar 3 Hydref 2013.
Hefyd am fam a nain serchog, Ellen
Rosina Pritchard, a fu farw'n 81
oed, 8 Hydref 1990. 'Yma o hyd' -
David, Gavin, James a'r teulu.

£40.00 Er cof annwyl am John Gareth
Parry, 45 Adwy'r Nant, a hunodd ar
2 Awst 2003,
hefyd Robert (Bob) Parry, 43
Adwy'r Nant, a hunodd 19 Medi,
2009. "Hiraeth mawr pob dydd",
oddi wrth Anne a'r teulu. X X.

Diolch yn Fawr

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
 01248 600184

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar gasét bob mis,
cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd 601415
Neville Hughes 600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
 01248 601669

Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwen ac i drafod
telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA 600853
nev_hughes@btinternet.com

Annwyl Ddarllenwyr

Prosiect Pasport Llwybr Pererin Gogledd Cymru

Mae pererinion ers canrifoedd wedi cerdded llwybrau gogledd Cymru tuag at ynys sanctaidd Enlli. Mae'n anodd gwybod lle yn union yr oedd y llwybrau gwreiddiol ond heddiw gellir teithio ar Lwybr Pererin Gogledd Cymru sydd newydd ei sefydlu. Llwybr hirbell yw hwn yn rhedeg ar draws gogledd Cymru o Abaty Dinas Basing ger Treffynnon i Aberdaron gan basio trwy rai o'r golygfeydd harddaf yng Nghymru.

Mae arddangosfa yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon tan 31 Awst 2014 yn arddangos printiau gan ddisgyblion o ysgolion cynradd ar hyd rhan Conwy a Gwynedd o'r Llwybr Pererin hwn.

Mae pob llun a gaiff ei arddangos yn cynrychioli nodwedd o'r gwahanol gymunedau. Bydd un o'r rhain yn cael ei ddewis i gynrychioli pob un o'r cymunedau hyn, a bydd y llun yn cael ei droi'n stamp printio bychan. Bydd y stampiau hyn yn cael eu stampio ar gerdyn pasport cerddwr i bobl sy'n teithio ar hyd y Llwybr Pererin ac yn gofnod o gwblhau pob cam o'r llwybr.

Yn yr arddangosfa gwelir hefyd ddetholiad bychan o hen brintiau, o gasgliad Gwasanaeth Archifau Gwynedd, o rai o'r eglwysi a fyddai yn gyrchfannau pwysig i'r pererinion ar eu taith.

Mae Oriel Pendeitsh ar agor yn ddyddiol o 9.30am hyd 4.30pm.

Sioe gwis newydd S4C Chwilio am barau i gystadlu am jacpot posib o £10,000!

Ydych chi'n dda mewn cwis? Does dim ots, achos mae Celwydd Noeth yn gwis heb gwestiynau! Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw adnabod pa ffaith sy'n gelwydd noeth.

Ym mhob rownd, byddwch yn derbyn rhestr o ffeithiau, ac yn eu plith bydd un sy'n gelwydd. Os llwyddwch chi i ddod o hyd i'r ffaith sy'n gelwydd, yna byddwch yn symud ymlaen at y rownd nesa' ac yn ennill mwy o arian.

Mae'r cwmni cynhyrchu, Cwmni Da, yn chwilio am barau mentrus i gystadlu mewn tîm: parau priod, cariadon, ffrindiau, cyd-weithwyr, brodyr, chwirydd. Byddwch yn barod i fentro, a gydag ychydig o lwc o'ch plaid, fe all swm sylweddol fod o fewn eich gafael. Bydd y gyfres yn cael ei recordio ar benwythnos 27, 28 a 29 Medi, 2014. Mae'n rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn i gymryd rhan ac mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Am ragor o wybodaeth neu gynnig eich enw i gymryd rhan, cysylltwch â Cwmni Da 01286 685 300 neu celwydd.noeth@cwmnida.tv

Annwyl Ddarllenwyr,
Fel y gwyddoch mae Canolfan Hanes Uwchgwyrfai yn cynnal rhaglen ddifyr a safonol o ddarlithiau: edrychwch ar y calendr i weld yr arlwy. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd i gyflwyno gweddau o hanes Cymru. Dewch atom! Dyma ychydig o wybodaeth am y digwyddiad nesaf:

Ein Gwir Hanes 4 : OWAIN GWYNEDD
Un o gewri ein cenedl yw'r Tywysog Owain Gwynedd. Ond pryd oedd o'n teyrnasu? Beth wyddoch chi amdano, tybed? Pam y dylem ni ei gofio ac ymfalchïo yn ei gyflawniadau?

Mynnwch wybod ein hanes, gwir hanes Cymru. Yr hanes nas cawsoch yn yr ysgol. Dewch i Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr i wrando ar siaradwyr hyddysg yn y maes, - Howard Huws, Dawi Griffiths ac Ieuan Wyn yn traethu ar yrfa Owain Gwynedd a'i amserau.
Dydd Sadwrn 18 Hydref 2014, 10.30-2.30

Darperir paned
Am ragor o fanylion cysylltwch â ni ar 01286 660 546/853
canolfanuwcgwyrfaif@gmail.com

Croeso cynnes i bawb Gobeithiwn y cawn eich gweld. Yn gywir, Jina Gwyrfai

**Gwenlais
8 Bron Arfon
Llanllechid
LL57 3LW**

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddiolch yn gyhoeddus i Mrs Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, Tregarth am ei holl gymorth wrth i ni fel teulu baratoi i fynd i Fflandrys ar gyfer seremoni dadorchuddio Cofeb y Cymry ar 16 Awst.

Rai misoedd yn ôl, gwnes apêl yn y Llais ar i unrhyw un a oedd â pherthynas yn lleol a oedd wedi'i ladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac a fyddai'n fodlon i Gwydion sôn amdano yn y seremoni, gysylltu â mi. Gwnaeth Eirwen hynny, a gwnaeth ein gwaith ni o baratoi araith Gwydion yn hawdd. Cawsom luniau ardderchog ganddi o'r ddau a fu farw (dau o frodyr ei thad), a gwnaethom gopiau er mwyn i Gwydion eu gosod ger y gofeb.

Mae ein diolch yn fawr hefyd i Alwyn a Glenna Bevan, Red Lion, Llanllechid, am eu cydweithrediad dros y misoedd diwethaf, wrth i ni baratoi ar gyfer y seremoni, ac i gwmni teithio Seren Arian am noddi Gwydion ar y daith. Diolch i Gôr Rygbi Gogledd Cymru am roi cyfle i Gwydion berfformio yn y cyngerdd mawreddog noson y dadorchuddio. Yn olaf, diolch i Ysgol Llanllechid am y cyfle i gael bod yn rhan o ddigwyddiad mor gofiadwy, ac i Mrs Gwenan Davies Jones am ei chefnogaeth bersonol.

**Yn gywir,
Siân Esmor Rees**

O 'Tŷ Ni'



Wel helo! Gobeithio i chi gael haf braf fel fi. Beth ydi'r gair Cymraeg am 'tips' dudwch. Tydi 'argymhellion' ddim yn taro deuddeg rhywsut! Roeddwn wedi mynd i ymweld â theulu tua Phen Llŷn ac yn sylwi ar gar drws nesa yn bagio allan o'i garej. I mewn yn y garej, yn hongian o'r to, roedd pêl denis ar liny. Dyma ofyn i'r cyfaill peth oedd pwrpas y fath beth. "Tip da ylwch" oedd yr ateb. "Y musus acw yn darllan magasîns merchaid yn lle gwallt. Ia, tip da - dwi wedi gosod y bêl yn hongian ar y llinyn o do'r garej ar yr union le fel y galla i gadw'r car heb daro'r wal! Ew mae o'n gweithio'n berffaith. Pan ma'r bêl yn taro'r windsgrin, dwi'n stopio!" "Diolch yn fawr" medda finna ac yn gweld Tŷ Ni, Tŷ Chi wedi ei sortio am fis Medi!
Oes gennych chi dips i'w rhannu?

O 'Tŷ Chi'

Diolch yn fawr i Dilwyn a Lynda Pritchard o Rachub am anfon yr erthygl ddiddorol yma i mi.

Roeddau ni'n edrych trwy hen rifynnau o'r 'Chronicle' o 1949 pan ddaethon ni ar draws y pytau difyr yma ynglŷn â thîm pêl-droed Bethesda Athletic – dyma gyfieithiad :-

Colofn 'Clees Chwaraeon'

Hydref 14eg, 1949

Ysgrifennai ein sgowt yn Nyffryn Ogwen fel hyn : “ Gwyliwch Bethesda Athletic o hyn ymlaen. Mae'r rhew wedi ei dorri ac mae nhw wedi sicrhau eu pwynt cyntaf o'r tymor yng nghyngair Cymru. Gyda chwaraewyr newydd mae'r tîm wedi gwella'n eithriadol. Mae pwyllgor brwdfrydig Bethesda yn arddel yr arwyddeiriau “ Mae'n rhaid cael timau da ac fe wnaiff y cyhoedd ein cefnogi.” Rydym yn disgwyl arwyddo chwaraewyr nodedig yn fuan. Siom i'r pwyllgor oedd gorfod derbyn ymddiswyddiad Mr Richard Jones Min Awel – ysgrifennydd y clwb. Yr ysgrifennydd newydd fydd Mr Hugh Pugh, Iscoed, teithiwr masnachol, y gellir dibynnu arno i ddefnyddio ei gysylltiadau busnes niferus ar hyd Gogledd Cymru i sicrhau chwaraewyr. Ei gynorthwy-ydd yw Mr Daniel Collister Jones, Ffordd Ffrydlas, darlithydd ym Mhrifysgol Bangor. Mae Mr Chidley o gwmni Bradite yn gefnogwr peldroed brwdfrydig .Y trysorydd ydy Mr Hughes , Banc y Midland sy'n ddilynwr brwd. Hyfforddwr eleni ydy 'Taff Morris'.

Tachwedd 4ydd, 1949

Gwahardd merched rhag teithio gyda'r chwaraewyr Llywyddwyd cyfarfod blyneddol Clwb Peldroed Bethesda Athletic yn Ysgoldy Glanogwen gan y Cynghordd Richard Price . 'Roedd nifer dda yn bresennol i glywed gan yr ysgrifennydd am y cynnydd ardderchog a wnaethpwyd gan bwyllgor Clwb y Cefnogwyr ers ei sefydlu. Datgelwyd bod Pwyllgor y Clwb Pêl-droed wedi penderfynu gwneud rheol yn gwahardd merched rhag teithio i gemau i ffwrdd yn yr un bws a'r chwaraewyr. O hyn ymlaen bydd rhaid i gefnogwyr sydd eisiau teithio wneud eu trefniadau eu hunain, ac nid drwy Mr Hugh Roberts, Carneddi a Mr W.J.Williams y trysorydd a apwyntiwyd i'r perwyl yma gan Glwb y Cefnogwyr. Etholwyd Mr Gray Morris, Maes Bleddyn fel aelod newydd i'r pwyllgor.

Cysylltwch trwy e-bost: jan@erwlas.freeseve.co.uk
Cysylltwch trwy e-bost jan@erwlas.freeseve.co.uk
neu Mrs J Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ **600431**

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

Dafydd yn dathlu

Roedd nos Wener, 11 Gorffennaf 2014 yn noson fawr i David (Dafydd) Elwyn Pritchard, Rhos Elfed. Roedd rhai o'i berthnasau a'i ffrindiau wedi dod ynghyd i'r Bull ar Stryd Fawr Bethesda i ddathlu carreg filltir bwysig yn ei hanes, sef ei ben-blwydd yn 70 oed. Roedd Ann a Glyn, y Bull, ac Alan (Tacsì) wedi darparu bwffe rhagorol i'r gwsteion (yn rhad ac am ddim ar ran Dafydd) a choronwyd y cyfan â chacen pen-blwydd fawr â llun ardderchog o Dafydd arni, a wnaed gan Karen a'i chydweithwyr yng Nghaffi Coed y Brenin ac a roddwyd yn rhodd iddo gan ei gyfnither, Heulwen, a'i gŵr, Emyr. Gwnaeth Dafydd araith fer ond pwrpasol iawn i ddiolch i bawb a gyfrannodd at wneud y noson yn un mor llwyddiannus a chofiadwy, ac am y cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd.

Diolch Pen-blwydd

Dymuna Linda White, Glanffrydlas a Chaffi Coed y Brenin, ddiolch yn fawr iawn i bawb a gofiodd amdani ar ei phen-blwydd yn 60 mlwydd oed ar 25 Gorffennaf. Diolch am y cardiau a'r anrhegion oddi wrth ffrindiau a theulu. Diolch hefyd am y parti.

Dymuna Roma Griffiths, Garneddwen, ddiolch o galon i bawb am bob cerdyn ac anrheg a dderbyniodd pan ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed ar 19 Awst. Diolch yn fawr.

Dymuna Cledwyn Thomas, 39 Abercaseg, ddiolch yn fawr i bawb a gofiodd amdano ar ei ben-blwydd yn 70 mlwydd oed yn ddiweddar. Diolch am y cardiau a'r anrhegion.

CAPEL BETHANIA Gwasanaethau

21 Medi Parch. Gwynfor Williams
05 Hyd. Parch. E. Trefor Jones
19 Hyd. Parch. Gwynfor Williams
Oedfaon am 5.30
Croeso Cynnes i Bawb

Diolchiadau

Dymuna Siôn Guto, Gwenllian, John ac Elin, 5, Erw Las, ddiolch am yr holl gardiau, rhoddion, galwadau ffôn, a phob cefnogaeth a gawsant yn ystod trawsblaniad ac arhosiad Siôn yn Ysbyty Plant Birmingham yn ystod yr haf.

Diolch hefyd i Dr. Kubwalo a staff ward Dewi, Ysbyty Gwynedd am eu gofal diflino dros y blynyddoedd. Mae'r un diolch yn mynd i Mrs. G. Davies Jones a staff Ysgol Llanllechid ac i Mr. A. Llwyd a'i staff yn Ysgol Dyffryn Ogwen am eu cefnogaeth i Siôn dros yr holl flynyddoedd.

Mae ein dyled yn fawr hefyd i swyddogion Apêl Siôn Guto, sef Diane Hulme, Lena Henry a Karen Aston, ac yn bennaf i Marian a Selwyn (nain a taid Besda) sydd wedi bod yn gefn mawr i'r teulu bach ers genedigaeth Siôn. Mae Siôn yn cryfhau a gwella bob dydd ac yn edrych mlaen at fywyd llawn a hapus. Diolch i chi gyd.

Diolch

Dymuna Janice Lewis, Ffordd Bangor, ddiolch o galon am yr holl gardiau, rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o'i swydd fel athrawes yn Ysgol Abercaseg yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Eifiona, Malcolm, Carolyn a Deifid Wyn, 25 Glanffrydlas, ddiolch i bawb am yr holl gardiau a roddion a gawsant er cof am Tudor (brawd ac ewythr). Fe rannwyd y rhoddion rhwng cartref Cerrig-yr-afon ac Ambiwylans Awyr Cymru. Diolch o'r Parchedig Hugh John Hughes, Ann a Glyn (Bull) ac i'r ymgymerwr, Gareth Williams, Bethesda. Diolch i bawb.

Codi Arian

Mae Siwan, sydd yn 11 oed, ac yn ddisgybl newydd sbon yn Ysgol Dyffryn Ogwen, wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar, yn gwneud y breichledi lliwgar yma sydd yn hynod o boblogaidd ar hyn o bryd, ac yna eu gwerthu tuag at apêl Cystic Fibrosis. Mae ei chwaer fach 10 mis oed yn dioddef o'r cyflwr yma a hyd yn hyn mae Siwan wedi casglu £100 at yr achos, ac yn gobeithio gwneud taith gerdded nodedig hefyd cyn bo hir. Mae Nain Siwan, sef Eirian Mabinogion, yn falch iawn ohoni, fel ninnau i gyd. Da iawn ti, Siwan!

Gwobr Gymnasteg



Mae Shaun Hughes, mab Laura a Richard Hughes, Rhos Tabernacl, Bethesda, wedi ennill gwobr John Pike am y pwyntiau uchaf yn y gystadleuaeth gymnasteg sirol ar gyfer plant 4 i 16 oed. Mae Shaun yn aelod o Glwb Gymnasteg Plas Ffranc.

Llwyddiant yn y Sioe Frenhinol



Llongyfarchiadau i Alaw Jones, Parc y Moch, ar ei lwyddiant yn ennill gwobr yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Derbyniodd Alaw wobwr arbennig am ei arddangosfa o lysiau. Da iawn, Alaw!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhys Cross, mab Steven a'r ddiweddar Dawn Cross ar ennill gradd mewn gwleidyddiaeth o Brifysgol Lerpwl. Pob lwc i Rhys ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at bob teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, gan gynnwys: Mr a Mrs Dafydd Morris, Ffordd Abercaseg; Mr Selwyn Owen a'r teulu, Ffordd Ffrydlas (colodd Eirwen a Selwyn eu brawd, sef y diweddar William Owen, Bae Colwyn, yn 84 oed. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlogfa Bangor ddydd Mawrth, 22 Gorffennaf, gyda'r Parchedig Cledwyn Williams yn gwasanaethu.

Mr a Mrs Andrew Roberts, Llain. Colodd Karen ei thad ym Mangor yn ystod mis Awst.

Mr a Mrs Neville Hughes, Pant. Colli eu brawd-yng-nghyfraith yn ytod mis Awst, sef y diweddar Mr Eric Harper, Fferm Tŷ-newydd, Llandygái.

Marwolaeth

Ar 24 Gorffennaf yng nghartref Cerrig-yr-afon, y Felinheli, bu farw Mr Tudor Roberts, gynt o Abercaseg a Mynydd Llandygái. Brawd i Eifiona a'r teulu, Glan Ffrydlas. Ni fu iechyd Tudor yn dda ers peth amser ond daeth ei farwolaeth yn sydyn. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Iau, 31 Gorffennaf gyda gwasanaeth yn Amlogfa Bangor gyda'r Parchedig Ddr Hugh John Hughes yn gwasanaethu. Claddwyd ei lwch ym medd y teulu yn Eglwys St Anne. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Yn sydyn yn ei gartref, 2 Maes Coetmor, ar 14 Awst, bu farw Mr Ian V Jones yn 43 oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs Annette Jones a thad gofalus Damon, Gavin a Dion, ac unig fab Mr a Mrs Emyr V. Jones, 2 Maes Coetmor. Cynhaliwyd ei angladd fore Gwener 22 Awst gyda gwasanaeth ar lan y bedd ym mynwent Coetmor, lle

daeth llu o deulu a chyfeillion. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich colled fawr.

Ar 31 Awst yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, wedi salwch blin, bu farw Mrs Henrietta Evans (Ettie) o 10 Glan-Ffrydlas yn 83 oed. Priod annwyl Mr Joe Evans a mam a mam-yng-nghyfraith annwyl a charedig i Arfon a Helen, Gareth a Lowri, a'r diweddar Arthur Wyn. Nain hoffus Rhodri a Rhian, Lois a Mathew, Martha, Elis a Begw, a hen-nain Bledodyn. Roedd Ettie yn wraig dawel a pharchus ac yn uchel ei pharch gan bawb. Roedd wrth ei bodd cael sgwrs am Fethesda a Rachub. Tra'n byw ym Maes Bledodyn bu'n aelod selog o Gapel Salem ac yn athrawes yr Ysgol Sul, ac yna yn Siloam a Jerusalem. Roedd yn aelod o Sefydliad y Merched, o Glwb Gorffwysfan, a Chlwb Gwau Rachub, ac yn cefnogi'r boreau coffi bob dydd Sadwrn – hi a'i ffrind Joan. Cynhaliwyd ei hangladd fore Gwener, gyda gwasanaeth yn Amlogfa Bangor, lle daeth tyrfa fawr o deulu, cyfeillion a chymdogion ynghyd. Gwasanaethwyd gan ei nai, y parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mr Wyn Williams wrth yr organ. Claddwyd ei llwch ym mynwent Coetmor fore Sadwrn. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich hiraeth.

Penblwyddi Arbennig

Dathlodd sawl un ben-blwydd arbennig yn ystod yr haf. Anfonwn ein cyfarchion atoch i gyd.

Ar 25 Gorffennaf dathlodd Linda White, Glanffrydlas, ei phen-blwydd yn 60 oed a chafodd barti i'w gofio yn y clwb cymdeithasol ym Maesgeirchen.

Ar 7 Awst, Mr Derek Griffith, Abercaseg, ddathlodd ei ben-blwydd yn 80 oed.

Ar 19 Awst dathlodd Mrs Roma Griffiths, Ffordd Garneddwen, ei phen-blwydd yn 90 oed. Yn y llun gwelir hi’n dathlu gyda’i merched (o’r chwith) Gwen, Freda, Valmai, Jean ac Ann.



Llongyfarchiadau i Enid Ann Cooney, 3 Glanffrydlas, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 75 mlwydd oed ar **16 Gorffennaf**.

Cyfarchion pen-blwydd arbennig i Joan Bullock, Rhes Elfed, oddi wrth y teulu i gyd.

Llongyfarchiadau i Cynthia Williams Stryd Cefnfaes ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 yn ystod mis Awst.

Ymdeol
Wedi dros saith mlynedd yn cadw tafarn y King’s Head ar y Stryd Fawr daeth diwedd cyfnod pan dynnodd Richard Berwyn, (neu Dic Bêrs) a Mary eu peint olaf yn y dafarn ar nos Fawrth 19 Awst. Bellach maent wedi symud i fyw i Benmaenmawr ac yr ydym yn dymuno’n dda iawn iddynt ar eu hymddeoliad. Hoffent hwythau ddiolch i bawb am eu cwsmeriaeth a’u cwmnïaeth.

Rheolwr Newydd
Mae’r King’s Head bellach o dan reolaeth newydd, sef Mike Jones. Bydd Mike a Carwen yn barod i groesawu’r cwsmeriaid ffyddlon a chwsmeriaid newydd. Pob lwc yn y fenter newydd.

Dymuniadau da
Pob lwc i Cara Aston, Erw Las, sy’n dechrau cwrs gradd yn yr Adran Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Croeso adref
Braf iawn yw cael croesawu Eirian Pritchard yn ôl i’w chartref yn Rhes Elfed ar ôl cyfnod yn yr ysbyty wedi iddi dorri ei choes.

Priodas
Ddydd Sadwrn, 12 Gorffennaf, yng Nghapel Tabernacl, Porthaethwy, priodwyd Alison a Llywelyn Tudur, Tŷ’n Llan, Pant Glas. Gwasanaethwyd gan dad Llywelyn, sef y Parchedig Ddr Geraint Tudur, a’r Parchedig J. Ronald Williams. Cynhaliwyd y wleded briodas a pharti’r nos yng Ngwesty Carreg Brân. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt.

Priodas
Ar ddydd Sadwrn, 16 Awst, yng Ngwesty’r Celtic Royal, Caernarfon, priodwyd Michael a Laura Hughes, Rhes Tabernacl. Llongyfarchiadau i chi a phob dymuniad da.

Ysbyty
Yn ystod Gorffennaf/Awst bu sawl un yn yr ysbyty a da deall fod sawl un wedi dychwelyd a’u bod yn gwella. Cofion cynnes atoch i gyd:

Mr Joe Evans, Glanffrydlas; Mr Les Jones, Glanogwen; Siôn Guto, Erw Las; Mr Huw Jones, Maes Coetmor; Mrs Eirian Pritchard, Rhes Elfed; Mr Llyfnwy Lloyd, Glanogwen; Mrs Mair Sullivan, Glanogwen; Mrs Betty Williams, Abercaseg; Mr Ellis Roberts, Abercaseg; Mrs Betty Smith, Adwy’r Nant; Mrs Eirian Jones, Hen Barc; a Dafydd, mab bach Laura a Michael, Rhes Tabernacl.

Gair o ddiolch
Dymuna Helen, Andrew a Nicola fynegi eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl, sef y diweddar Mr Elfed Roberts, 27 Ffordd Ffrydlas. Diolch i feddygon a gweinyddesau Meddygfa Bethesda ac i staff Ward Moelwyn, ysbyty Gwynedd am y gofal arbennig a dderbyniodd Elfed. Diolch i’w gyfaill, y Parchedig Geraint Roberts, am arwain y gwasanaeth ac i’w gymydog, Mr Elfed Jones, am ei gymorth parod. Diolch yn fawr hefyd i Mr Gareth Williams yr ymgymwrwr am ei drefniadau trylwyr a pharchus.

Llwyddiant Nofio

Daeth llwyddiant mawr i ran Catherine Roberts, Glanogwen, dros yr haf pan ddewisiwyd hi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth nofio yn y pwll cenedlaethol yn Abertawe. Roedd Catherine yn un o’r rhai ieuengaf yn y gystadleuaeth ac yn cystadlu yn erbyn nofwyr ifanc o Loegr, yr Alban, ac Ynys Manaw. Bu i Catherine wella ei hamser ar y Ras 100 llath pili-pala o ddwy eiliad a hanner, ac roedd hi a phawb o’i theulu a’i chefnogwyr wedi gwirioni efo’i pherfformiad. Rhagorol, Catherine, dal ati; rydym yn edrych ymlaen i glywed am fwy o dy llwyddiant yn y dyfodol.

Penblwydd Priodas

Rydym yn llongyfarch Richard ac Eleanor Jones, Bryn Caseg, ar ddathlu 35 mlynedd o fywyd priodasol ddechrau Awst. Hoffai Richard ac Eleanor ddiolch i bawb am y rhoddion, cardiau, a’r holl arwyddion o ddymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur pen-blwydd eu priodas, ac am y noson arbennig a dreuliwyd gyda theulu a ffrindiau ym mwyty’r Jade Village ym Mhorthaethwy. Diolch yn fawr iawn.

Yr Eglwys Unedig

‘Mis Awst os bydd yn hindda
Ni wna niwed i’r cynhaea.’

1.7.14. Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dan ofal Rhiannon gydag Elena ac Elna yn cynorthwyo i gyfeiliant Eileen.

Fel eglwys, cofiwn am bawb sydd yn wael neu dan unrhyw anhwylder ac yn gaeth i’w cartrefi. Anfonwn ein cofion cywiraf atynt a boed bendith arnynt.

Bu seiadau Gorffennaf dan arweiniad y Parchedig John Owen. Nid oedd Seiadau na Chyfarfod Gweddi yn ystod mis Awst.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs.Karen Roberts, Llain, Carneddi sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar, a Mrs.Glenys Lloyd Jones sydd wedi colli nai.Tristwch o’r mwyaf oedd derbyn y newyddion fod Mrs Ettie Evans, 10 Glanffrydlas wedi ein gadael. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Joe Evans a’r teulu i gyd yn eu colled.

Llongyfarchwn y canlynol:-
Mr a Mrs Emlyn Evans ar ddod yn hen daid a hen nain. Wyresau y Parchedig John Owen ac Elena Owen - Mirain wedi graddio a Glain wedi dyweddïo. Anna,wyres Jean Ogwen Jones wedi nofio ar draws afon Menai i godi arian at Ward Alaw. Da iawn hwy.

Oedfaon i ddod
Medi 21. Y Parchedig Athro G.H.Jones (10.00)
Medi 21. Y Parchedig Robert.Capon (5.00)
Medi 28. Y Parchedig Gareth Edwards
Hydref 5 Y Parchedig D.C.Williams.
Hydref 12 Y Parchedig W.R.Williams.
Hydref 19 Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans.

Adnod y mis
Ond meddai Ruth “Paid â’m hannog i’th adael, na throi’n ôl oddi wrthyt, oherwydd i ble bynnag yr ei di, fe af finnau; ac ym mhle bynnag y byddi di’n aros, fe arhosaf finnau; dy bobl di fydd fy mhobl i, a’th Dduw di fy Nuw innau.” **Ruth 1.16**

Y GYMDEITHAS
9 Hydref
13Tachwedd
11 Rhagfyr
08 Ionawr
12 Chwefror
12 Mawrth
9 Ebrill
14 Mai

**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA**
‘LLENWT’R CWPAN’
Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o’r gloch a
hanner dydd

Cyngerdd

Nos Sadwrn, 13 Medi, cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd Ogwen gyda Chôr Meibion y Penrhyn a Chôr Merched Llantrisant yng nghwmni Neville Hughes, Siân Mererid (Obo) a Stuart Street (Trwmped).



Helen Jensen o Lantrisant

Rhoddodd hyn gyfle i un o ferched Côr Llantrisant i ddychwelyd i fro ei mebyd i berfformio ar lwyfan Neuadd a oedd yn bwysig yn hanes ei theulu a'i phlentyndod. Mae Helen Jensen (Williams cyn iddi briodi) yn awr yn byw yn Llantrisant, ond yn wreiddiol o 2 Stryd Ganol, Carneddi; yn ferch i Ifor Wyn a Lyn (Eluned) a chwaer i Carol. Bu ei mam yn gweithio yn Siop Stâr ac yna yn Siop Fara No. 1. Roedd ei thad yn hoff o drafod dros beint gyda'r hogia' yn y Douglas a'r Bull. Ar ôl gadael Ysgol Dyffryn Ogwen, bu Helen yn gweithio am flwyddyn yn Swyddfa Gwerthiant Chwarel y Penrhyn cyn ymadael â'r ardal i ymuno â'r Fyddin.

Gwreiddiodd y syniad o gynnal cyngerdd ar y cyd gyda Chôr Y Penrhyn ym Methesda ar ôl i Helen fod mewn cyngerdd a gynhaliwyd gan Hogiau'r Bonc ym Mhontypridd a Phontyclun . Rhoddodd Alun, un o aelodau Hogiau'r Bonc, wahoddiad i Gôr Merched Llantrisant, sydd wedi bod mewn bodolaeth ers pum mlynedd, i ddod i Besda i ymuno â hwy mewn cyngerdd fel rhan o raglen gweithgareddau Neuadd Ogwen ar ei newydd wedd.

Roedd dyddiad y cyngerdd, sef 13 Medi, yn gyd-ddigwyddiad hefyd gan y buasai Llyn, mam Helen, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed ar 15 Medi eleni. Wrth ganu gyda'r Côr yn y Neuadd, daeth atgofion lu yn ôl gan bod ei mam wedi gweithio'n rhan amser yn y Neuadd yn gwerthu tocynnau bingo ar nosweithiau Mercher pan oedd cynnal bingo mewn bri yn yr hen neuadd yn ystod y '60au a'r '70au. Hefyd, byddent yn arfer chwarae 'Take Your Pick' yno a daeth cyfle i'w mam agor y bocs un noson gan ddisgwyl gweld ei henillion ar ffurf arian, ond yr hyn a enillodd oedd tun o fwstard!

Roedd yr ymweliad hon ag ardal bro ei mebyd yn llawn o atgofion hapus iddi oherwydd ei chysylltiadau cryf â'r ardal, y chwarel a'r neuadd. Synnodd at y newidiadau a'r datblygiadau yn Neuadd Ogwen ers dyddiau ei phlentyndod pan fyddai yn mynd i weld ffilmiau yno ar fore Sadwrn ac yna'n rhedeg at ei mam yn Siop Star i gael pres i brynu bag o sglodion o Siop Sam. Dyddiau hapus iawn.

Dywedodd Helen ei bod yn hynod o gynhyrfus a balch o'r cyfle i gael canu ar yr un llwyfan â Chôr Meibion y Penrhyn gan yr arferai cefnder ei mam, y diweddar Now Dob o Dregarth, fod yn aelod o'r Côr, sydd yn rhan anatod o'i hetifeddiaeth hi a'r ardal gyfan.

Gorffwysfan

Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor fore Llun, y cyntaf o Fedi, gyda Mr Elfed Bullock yn y gadair. Yn bresennol roedd Dennis Dart, Vernon Owen, Dafydd Pritchard, Tom Morgan, O. J. Evans, Gilbert Bowen, Edric Jones, Elfed Bullock (Cadeirydd), Joe Hughes (Ysgrifennydd). Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhiannon Efans a Joe Evans.

Cafwyd gair o groeso i bawb i'r cyfarfod gan ein cadeirydd.

Cydymdeimlodd y cadeirydd â Mr Joe Evans a'r teulu, Glanffrydlas, yn eu profedigaeth o golli priod, mam, nain a hen nain annwyl iawn, sef y ddiweddar Mrs Ettie Evans. Safodd yr aelodau i ddangos eu parch. Dymunodd y Cadeirydd wellhad buan i Mrs Alice Jones, Mrs Christine Jones, Mrs Nancy Williams, Mr Jim Amos, Mrs Margaret Roberts a Mr Joe Evans.

Darllenwyd cofnodion pwyllgor bore Llun, 10 Mawrth, 2014.

Materion i'w trafod

Dau rif aelodaeth – Penderfynwyd eu rhoi i Dilwyn ac Eirwen Owen. **Cerdyn Aelodaeth** – Dennis am baratoi cerdyn aelodaeth i bob un o'r aelodau gyda'r rhif a'r amodau arno. Diolchodd y cadeirydd Dennis.

Dathlu'r Nadolig (17:12:14) – Wedi trafodaeth penderfynwyd cynnal cinio Nadolig eleni yn y Clwb Criced, Bethesda, ar ddydd Mercher, 17 Rhagfyr 2014. Bydd yr ysgrifennydd yn trefnu gyda Karen o Gaffi Coed y Brenin. Cafwyd sawl awgrym am adloniant wedi'r cinio (y pwyllgor i drefnu). Hefyd byddwn yn cynnal raffl gan ofyn yn garedig i'r aelodau ddod a gwobrau. Hefyd gofynnir i bob aelod wneud ei ffordd ei hun i'r clwb.

Unrhyw fater arall

Yn dilyn ein Bore Coffi ym mis Mehefin penderfynwyd anfon rhodd eleni o £50.00 i Gyfeillion Ysbyty Gwynedd.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu gwaith a'u presenoldeb.

Gwibdaith Hydref

Dydd Mercher 29 Hydref 2014 i'r Wyddgrug a'r Felin Frethyn. Cofiwch alw yng Ngorffwysfan i roi eich enw ar y rhestr o 1 Hydref.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis

Cymun Bendigaid – 8.00am Boreol Weddi – 11.00am

Ail a thrydydd Sul pob mis -

Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am

Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am

Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandygái a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod

Gobeithiwn fod pawb wedi cael haf hapus a bendithiol ac wedi mwynhau'r gwyliau. Dymuniadau gorau i holl bobl ifanc y plwyf - bydd rhai yn dechrau ysgol o'r newydd, rhai yn symud dosbarth a chael athro/athrawes newydd, rhai yn symud o'r ysgol gynradd i'r uwchradd, rhai yn mynd i goleg ac eraill yn dechrau gweithio. Pob bendith i bob un ohonoch.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio y daw adferiad buan i chwi i gyd.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Gobeithio bod yr haf wedi bod yn glên i bawb. Pob hwyl i blant yr ardal sy'n dechrau yr ysgol am y tro cyntaf, neu yn newid ysgol, ac i nifer o bobl ifainc fydd yn cychwyn ar gyrsiau mewn gwahanol golegau, neu yn dechrau gweithio.

Priodasau

Llongyfarchiadau i Marc Hughes (Post) a Jelena Maric ar achlysur eu priodas ar Awst 16. Mae'r ddau wedi ymgartrefu ger Thurso yn yr Alban, lle mae Marc yn aelod o'r Heddlu lleol.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Gareth a Lowri Evans a'r teulu, Mignant, ar achlysur marwolaeth mam Gareth, Mrs Hettie Evans, ym Methesda. Hefyd cydymdeimlwn gyda Mrs Helen Williams, Llwynbleddyn ar golli ei chwaer yng nghyfraith.

Llongyfarchiadau

i Gaynor, Maes Bleddyn ar ennill y gystadleuaeth dartiau, Amlwch Slam, a gynhaliwyd yn ystod Gŵyl Gopr Amlwch.

Pen-blwydd hapus

Ar y nawfed o Awst cyrhaeddodd Ann Tugwell garreg filltir wrth ddatlu ei phen - blwydd yn 60 oed. Gobeithio iddi fwynhau y dathlu. Mwynhaodd y teulu a ffrindiau barti yng nghlwb Rygbi Bangor, a diolch i Sandra (Llan) am ofalu am y bwyd, a Richard Ifor am y disgo. Mae Ann am ddiolch i'r teulu a chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod y cyfnod. Diolch o waelod calon i bawb.

Dymuniadau da

i Cynon Rhys, Sychnant, ar basio ei arholiadau meddygol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae bellach wedi cychwyn ar ei waith fel meddyg yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd. Pob dymuniad da iddo.

Diolch

Wedi misoedd cythryblus iawn i'r teulu mae Hilary, Gaynor a'r teulu oll am ddiolch i'r gymdogaeth am eu cymorth, y cardiau a'r cydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar adeg trist iawn yn eu bywydau. Bu farw eu rhieni, Bill a Margaret, o fewn misoedd i'w gilydd, gan adael bwlbch mawr yn y teulu.



Dymuniadau gorau i Siôn Jones, Bron Arfon a Gillian Thomas, Wreccsam ar eu priodas hwythau. Cynhaliwyd y briodas ym Mhlas Maenan, Llanrwst ar 21 Mehefin. Mae Siôn a Gillian am ddiolch i'r teulu a ffrindiau i gyd am eu cyfarchion ac am yr anrhegion a dderbyniwyd ganddynt.

Llongyfarchiadau
i Alan a Sue Davies, Hen Barc ar achlysur dathlu eu priodas arian. Bu'n adeg hapus iawn iddynt a mwynhaodd y ddau amser arbennig yn Mharis. Maent am ddiolch i'r teulu a chyfeillion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt, ac i Rheinallt am y gwyliau ym Mharis.

Llongyfarchiadau
i Gwydion Rhys, Bron Arfon ar basio ei arholiad gradd 5 ar y sielo ddechrau'r haf.

Cafodd Gwydion hefyd fraint arbennig yn ystod yr haf – cafodd gymryd rhan yn seremoni dadorchuddio Cofeb y Cymry yn Fflandrys, gan siarad o flaen torf o 500 ochr yn ochr â nifer o siaradwyr eraill, gan gynnwys Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru. Adroddodd Gwydion hanes tri o frodyr o Ddyffryn Ogwen a aeth i ymladd yn y Rhyfel Mawr. Hogiau Tyddyn Dicwm, Tregarth oedden nhw, sef Dic, Jac a Tom Jones. Daeth un ohonyn nhw adre'n ôl, ond cafodd y ddau arall eu lladd, a gosododd Gwydion lun o'r ddau ohonyn nhw ar y gofeb yn ystod y seremoni.

Cafodd Gwydion ei ddewis ar gyfer y gwaith yn sgil y berthynas agos sy'n bodoli rhwng Ysgol Llanllechid, lle bu'n ddigybll tan ddechrau'r haf, a chôr y Cofio, sef Côr Rygbi Gogledd Cymru. Cafodd hefyd gyfle i berfformio ar y sielo yn y cyngerdd nos, gan rannu llwyfan â'r Côr, y canwr Rhys Meirion a'r telynor Dylan Cernyw. Tipyn o brofiad!

Capel Bethel
Trefn Gwasanaethau

Medi
21 Y Parchedig Elwyn Jones
28 Y Parchedig Dafydd Hughes
Hydref
05 Y Parch.Hugh John Hughes
12 Y Gweinidog
19 Mr Richard Lloyd Jones

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.

Carmel, Llanllechid
Trefn Gwasanaethau

Medi
21 Parch. Gwyndaf Jones 5.00
28 Miss Nerys Jackson 5.00
Hydref
05 Mr Dafydd Iwan 2.00
12 Oedfa Diolchgarwch 2.00
19 Parch. Geraint Hughes 5.00

Ysgol Sul: 10.30 y bore
Dwylo Prysur: Nos Wener 6.30 pm
Te Bach:
Pnawn Llun, 22 Medi 2.30 tan 4.00

Croeso cynnes i bawb

Capel Carmel Llanllechid

Te Bach Cyntaf y Tymor
Pnawn Llun, 22 Medi
2.30 - 4.30
Croeso Cynnes i Bawb

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Adref o'r Ysbyty
Rydym yn falch o weld fod Len Williams, Ffordd Gerlan, wedi dychwelyd adref ar ôl treulio cyfnod unwaith eto yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan ichi, Len. Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr
i Siôn a Kirsty, Tan Treflys, ar enedigaeth merch fach, Isabel Mair. Dymuniadau gorau i chi fel teulu

Hen nain a hen daid
Rydym yn llongyfarch Richard a Rhiannon Hughes, Stryd y Ffynnon, ar ddod yn hen daid a hen nain unwaith unwaith eto. Ganwyd mab bychan, Caio Wyn, i'w hŵyr, Darren, a'i bartner, Ffion, sy'n byw yn y Carneddi.

Priodas
Llongyfarchiadau mawr i Siôn Glyn ac Elinor Mai, Gwernydd, ar eu priodas dros yr haf. Gobeithio ichi gael diwrnod arbennig iawn, ac i'r haul ddisgleirio arnoch chi ac ar eich modrwy. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch gan bawb.

Profedigaeth
Rydym yn cydymdeimlo gyda Peter a Heather, Stryd y Ffynnon, ar eu profedigaeth ddiweddar. Fe gollodd Peter ei dad, oedd yn trigo yn Rhuddlan.

Pen-blwydd arbennig
Mae Medi yn fis arbennig iawn i Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon, gan ei bod yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed. Llongyfarchiadau mawr. Myfanwy, a phob dymuniad da i ti i'r dyfodol. Gobeithio y byddi'n mwynhau dathlu'r achlysur arbennig hwn.

Ymddiheuriadau
Rydym yn ymddiheuro i Nia Williams, Stryd y Ffynnon, am beidio cynnwys ei henw fel aelod o Bwyllgor Apêl Eleanor yn y diolchiadau yn y rhifyn diwethaf o'r Llais. Mae Nia yn aelod gweithgar iawn o'r pwyllgor. Ymddiheuriadau mawr, Nia.

Llongyfarch
Llongyfarchiadau mawr i holl bobl ifanc yr ardal a fu'n llwyddiannus mewn gwahanol arholiadau yr haf hwn, yn TGAU, Lefel A, ac arholiadau Coleg a gradd. Rydym, hefyd, yn dymuno'r gorau i bob un o blant a phobol ifanc yr ardal sy'n cychwyn ar ysgol, coleg, neu lwybr gyrfa newydd yn awr. Pob hwyl i chi i gyd!

Hysbysebwrch eich gweithgareddau yn y Llais 01248 600853

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwm ag Eurwen a Dafydd Morris, Garnedd Uchaf, yn eu profedigaeth o golli William, brawd Eurwen a Selwyn, a oedd yn byw ym Mae Colwyn. Dymuna Eurwen, Selwyn a'r teulu i gyd ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth.

Llongyfarchiadau
Anfonwn ein cofion at blant yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau TGAU neu Lefel A. Dymunwn yn dda i'r plant sy'n dechrau'r ysgol am y tro cyntaf neu sy'n symud dosbarth neu newid ysgol. Pob llwyddiant i chi i gyd.

Gohebu
Roeddem yn falch iawn o weld Ioan Doyle, Tŷ Ffynnon yn gohebu yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd gyda'r fath hyder. Diolch Ioan.

Cais
A wnewch chi adael i'r Gohebydd wybod beth sy'n mynd ymlaen yn yr ardal os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog
Trefn Gwasanaethau

Mis Medi
21 Y Parchedig James Clarke
28 Arwel Roberts

Mis Hydref
05 Dilys Thomas: Diolchgarwch

Croeso i bawb
am 2.00 o'r gloch

Marwolaeth
Yn Ysbyty Llandudno ar 11 Gorffennaf yn 90 oed, bu farw Mr David Emyr Owen Jones (Emyr Blaen Nant) o'r Maerdy, Pand y Tudur, gynt o Fferm Blaen y Nant, Nant Ffrancon, priod annwyl y ddiweddar Mrs Muriel Jones a ffrind cywir i lawer tra ym Mlaen Nant. Bu'n aelod ffyddlon o Gapel Nant-y-benglog. Cynhaliwyd ei angladd fore dydd Iau, 17 Gorffennaf, gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bae Colwyn gyda'r Parchedig R.O. Jones yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad at bawb o'i deulu a'i gydnabod.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ 600965

Profedigaeth
Yng nghrtref ei merch yn Llanfairpwllgwyngyll ar 21 Mehefin bu farw Mrs Doris Jones yn 79 oed. Ei chartref oedd 10 Cilfodan, Carneddi ac roedd yn wraig i Gwilym ac yn fam i Roy a Brenda. Roedd wedi mynd at y ferch o achos gwaeledd. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar 27 Mehefin. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am eu holl gardiau a galwadau ffôn a hefyd am yr arian hael a gyfrannwyd at Gronfa Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd, er cof amdani.

Bedydd
Yn ddiweddar, bedyddiwyd dwy ferch fach, sef Ela Grace Evans, merch Ceri a Lee, Cae Clochydd, a Holly Amelia, merch Stephanie a Mark Dignam, Llidiart y Gwenyn.



Ela Grace



Holly Amelia

Maent yn gyfneitherod, gan fod Lee, tad Ela, yn frawd i Stephanie, mam Holly.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick
Bethesda
11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

Dau Deulu Newydd

Croeso i ddau deulu o Dregarth i Ddolhelyg, sef Keith, Sandra, Daniel a Dylan i rhif 13, a Linda, Vince a’r teulu i rif 11. Gobeithio y byddwch yn hapus yn Nhalybont.

Tystysgrif

Llongyfarchiadau i Dafydd Pryce Hughes, 18 Cae Gwigin, Talybont ar dderbyn Tystysgrif Cenedlaethol uwch mewn Technoleg Drydanol ac Electronig. Yn wreiddoïol o Dregarth mae Dafydd wedi ymgartrefu yn Nhalybont gyda’i bartner Emma ers dwy flynedd bellach .

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Colin a Val Unstead ar ddathlu 25 mlynedd o fywyd priodasol.

Brysiwch Wella

Da clywed bod Mrs. Val Withers, Cae Bach, yn gwella yn dilyn cael pen-glin newydd yn Ysbyty Gobowen.

Priodas

Dymuniadau gorau i Kenny Jones, gynt o Ddolhelyg, ar ei briodas â Stephanie yn yr Eglwys Gatholig ym Mangor.

Capel Bethlehem Talybont

Oedfaon y Sul

Medi 21 Parchg. Dafydd Coetmor Williams;
Medi 28 Mr. Alan Wyn Roberts,
Brynsiencyn;
Hydref 5 Parchg. Dafydd Job, Bangor;
Hydref 12 Parchg. W. R. Williams;
Hydref 1: Parchg. Gerallt Lloyd Evans.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Priodas



Ym Methlehem ar Sadwrn, 23 Awst, fe briodwyd Hafwen Roberts, merch Wil a Gwyneth, Fferm Cochwillan, hefo Gethin Williams, mab Arfon ac Elvira Williams o Ynys Môn. Y Gweinidog oedd y Parchedig Marcus Wyn Robinson a’r organyddes oedd Eirianwen Williams. Dymunwn y gorau iddynt yn eu bywyd priodasol.

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Hughie Hughes, 7 Lôn-ddŵr, yn dilyn llaw-driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan hefyd i Augusta Williams sydd wedi cael codwm yn ddiweddar.

Eglwys Maes y Groes

Croeso

Hyfryd oedd gweld Sharon a’r teulu gartref o Dubai ac yn treulio amser gyda thad Sharon yng Nghae Gwigin. Tra ar ei gwyliau, bedyddiwyd ei mab ieuangaf, Mackenzie Brice, yn yr eglwys ar y Sul olaf o Fis Gorffennaf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein ficer, y Parchedig John Matthews, gyda Geraint Gill wrth yr organ.

Gwasanaethau undebol

Ar y ddau Sul tra’r oedd y Parchedig John Matthews a Mrs Sue Matthews ar eu gwyliau ym mis Awst, cynhaliwyd gwasanaethau undebol yn eglwys y Santes Fair, Gelli, Tregarth, ac yn eglwys Sant Tegai, Llandygái, dan ofal y Barchedig Christina McCrea. Diolch am y croeso gan aelodau y ddwy eglwys.

Profedigaeth

Drwg iawn oedd gennym glywed am farwolaeth Keith Irons o Dregarth. Fe fydd colled enfawr ar ei ôl yn ein heglwysi lle bu’n gwasanaethu’n gyson fel Darllenydd Lleyg. Estynwn ein cydymdeimlad dwys at ei briod Linda a’r teulu yn eu profedigaeth.

Gwella

Derbyniodd Val Withers, Cae Bach, driniaeth ar ei phen-glin yn ysbyty Gobowen yn ddiweddar, ac rydym yn falch o ddweud ei bod yn gwella’n foddhaol.

Bingo

Ar nos Wener olaf mis Awst, cynhaliwyd Bingo yn yr ysgoldy dan ofal Ann Pritchard a Hefina Watts, a Phyllis Davies yn gofalu am y lluniaeth ysgafn a’r raffl. Gwnaed elw o £185. Diolch i bawb am ein cefnogi i wneud y noson hwyliog mor llwyddiannus.

Diolchgarwch

Cynhelir gwasanaeth Diolchgarwch Eglwys Maes y Groes ar 21 Medi am 10.30 a.m.

Ardal Gweinidogaeth Bro Tegai a Llechid

Yn dilyn adolygiad strwythurau yr Eglwys yng Nghymru, mae eglwysi a phlwyfi yn cael eu casglu mewn “Ardaloedd Gweinidogaeth” er mwyn defnyddio’r adnoddau a doniau sydd gennym yn well. Edrychwn ymlaen at sefydlu Ardal Gweinidogaeth newydd yn ein hardal ni mis yma dan yr enw “Bro Tegai a Llechid”. Mae’r chwe eglwys yn y Dyffryn, sef Eglwys Crist, Glanogwen; Sant Cedol, Pentir; y Santes Ann a’r Santes Fair, Mynydd Llandygai; y Santes Fair, Gelli; St Tegai, Llandygái; a Maes y Groes, Tal-y-bont, yn dod at ei gilydd efo’r bwriad o weithio’n gyson dan arweiniad a gofal y Parchedig John Matthews a’r Barchedig Christina McCrea. Bydd y gwasanaeth sefydlu yn cael ei gynnal yn Eglwys Maes y Groes ar bnawn dydd Sul 21 Medi am 4.00 neu 5.00 o’r gloch (amser i’w gadarnhau) - croeso cynnes i bawb!

Llandygái

Ethel Davies, Pennard, Llandygái
☎ **353886**

Marwolaeth

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Rhian Flynn yn ei chartref, 58 Stad Tŷ Croes, Llanfairpwllgwyngyll ar 9 Awst a hithau ddim ond yn 55 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yng Nghapel Rhos-y-gad, Llanfairpwllgwyngyll brynhawn Iau, 14 Awst a’r gladdedigaeth ym mynwent Rhandir Hedd.

Eglwys Sant Tegai

Llwyddiant Addysgol

Llongyfarchiadau i Katie Marshall, Ben Cramb a Thomas Stevens ar lwyddo’n rhagorol yn eu harholiadau Lefel Uwch ym mis Awst. Mae’r tri wedi cael eu derbyn i’r prifysgolion o’u dewis hwy hefyd ac yn edrych ymlaen i’r tymor cyntaf. Hwyl fawr i chi – byddwn yn cael y newyddion amdanwch gan Betty a Hefina.

Bore Coffi

Ar fore Sadwrn, 26 Gorffennaf, cynhaliwyd bore coffi yng nghartref Richard a Georgia Douglas Pennant a gwnaed elw o £520 i Sant Tegai. Diolch yn fawr i Richard a Georgia am eu croeso cynnes a’r wledd fendigedig. Cafodd pawb amser wrth eu bodd.

Noson Barddoniaeth a Chân

Ar nos Lun, 7 Gorffennaf, cynhaliwyd noson o farddoniaeth a cherdd yn Sant Tegai yng nghwmni Richard Douglas Pennant a Stuart Silver a’r pianydd Huw Warren. Roedd yr elw yn mynd i’r eglwys. Diolch i Richard, Stuart a Huw ac i bawb a drefnodd y cwbl.

Gwaeledd

Mae ein gweddïau y mis hwn yn mynd at ein ffrindiau sy’n methu bod gyda ni oherwydd gwaeledd:- Mrs Jane Couch, Gwyn Edwards, Siân Evans, J. Aelwyn Roberts a Linda Irons. Gwellhad buan i chwi.

Te Mefus

Cynhaliwyd Te Mefus yn Eglwys y Santes Fair, Tregarth ar 5 Awst ac, fel arfer, roedd yn brynhawn difyr gyda digon o hwyl a chwerthin. Diolch i Rhian, Rosemary, Sue a Ceri am edrych ar ôl pawb mor dda. Roedd y bwyd yn ardderchog. Diolch o galon i John a Sue Matthews am eu croeso, roedd y ddau yn brysur gan eu bod drannoeth yn cychwyn ar eu taith i Malta i weld y teulu.

Gwasanaeth Undebol

Fore Syl, 31 Awst, cynhaliwyd ein gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys Maes y Groes gyda’r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu a Geraint Gill ar yr organ. Diolch yn fawr i’r ficer ac i aelodau Maes y Groes am ein croesawu ac am y lluniaeth ysgafn ar y diwedd.

Ar ddechrau’r gwasanaeth cawsom y newydd trist am farwolaeth Mr Keith Irons, Tregarth. Roeddem yn gwybod ei fod yn wael iawn ers tro bellach ond mae’n ergyd enfawr i Linda a’r plant pan fo’r diwedd yn dod.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Linda, y plant a’r teulu yn eu galar a’u hiraeth, a boed bendith Duw ar y teulu bach.

Cydymdeimlwn â Mike ei gŵr, Melanie, Gareth, Ffion ac Elen ei phlant a’r teulu oll yn eu profedigaeth chwerw. Daethom i adnabod Rhian pan oedd yn Lyric Cottage yn aros gyda Joan Tocker ei mam-yng-nghyfraith. Roedd yn eneth annwyl a charedig iawn.

Trist yw cofnodi marwolaeth Eric Harper, yn dawel yn ei gartref yn Fferm Tŷ Newydd, Llandygái ar 13 Awst yn 78 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, 20 Awst. Cydymdeimlwn ag Idris, Geraint, Arwyn a’r teulu oll yn eu colled drist.

Y Cleifion

Rydym yn cofio y mis hwn am y cleifion yn y

Bryn a’r pentref - Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams, Dorothy Proudley Williams a phawb arall sy’n dioddef – brysiwch wella!

Cynllun Gerddi Cenedlaethol

Dymuna Jennifer a John, Llys y Gwynt, ddiolch o galon i bawb a ddaeth i’w diwrnod agored ar 13 Gorffennaf. Bu’r ddau ddiwrnod eleni yn llwyddiant mawr a’r elw i gyd yn mynd at elusennau haeddiannol.

Pen-blwydd Arbennig

Yn Neuadd Talgai ar ôl gwasanaeth y Foreol Weddi, roedd ffrindiau, aelodau a chymdogion oedd wedi cadw golwg ar yr eglwys a’r fynwent ar y dyddiau agored, wedi cael gwahoddiad i barti pen-blwydd arbennig Ian Russell. Roedd y bwyd yn werth ei weld, a’r deisen ar ffurf mynydd (yr Wyddfa wrth gwrs) a dyn bach, beic a baner y ddraig i’w gweld hefyd. Roedd yn biti ei thorri, ond yn wir roedd yn flasus iawn.

Diolch o galon i Ian a Daphne am eu croeso ac am eu caredigrwydd tuag at yr eglwys. Codwyd y swm o £598 yn y parti i gronfa’r atgyweirio gan mai dyna oedd dymuniad Ian – dim anrhegion.

Ymdeoliad hapus i chi Ian, gan bawb yn y pentref a’r eglwys.

Diolch

Dymuna Iris Harper, Fferm Tŷ Newydd, a’r teulu, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist colli Eric ym mis Awst. Diolch am yr holl gardiau, galwadau ffôn a’r ymweliadau personol, ac i bawb am eu rhoddion hael er cof am Eric tuag at Glefyd Parkinson. Diolch hefyd i’w gweinidog, y Parchedig Philip Barnett ac i’r ymgymwrwr, Mr. Dylan Griffith, Penisarwaen.

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎01248 355336

Diolch

Ar ran y pentref hoffwn ddiolch i Mr John Huw Evans am ei waith clodwiw gyda Llais Ogwan ers y cychwyn. Mae’r papur bro yn agos at ei galon, a bu’n ymwneud ag ef ers y dechrau ac yn cyfrannu’n gyson. Bu’n gadeirydd y pwyllgor am ddwy flynedd ar hugain ac ef oedd gohebydd y pentref am flynyddoedd a byddai’n plygu, a dosbarthu dwsinau o gopiau bob mis. Nid yw ei iechyd wedi bod yn dda yn ddiweddar, a bu’n yr ysbyty am rai wythnosau dros yr haf, ond wedi dod adref erbyn hyn. Diolch i chi John a phob dymuniad da i chi a Heulwen.

Diolch

Dymuna John Huw Evans, 30 Bro Rhiwen ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn ystod ei waeledd dros y misoedd diwethaf. Roedd yn gwerthfawrogi pob ymweliad, pob galwad ffôn a cherdyn. Diolch o galon.

Llwyddiant Cai Llwyd Jones

Eleni am y tro cyntaf cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn ar gyfer disgyblion oed cynradd ac uwchradd ar draws y ddwy sir. Mae’r Gwobrau Chwaraeon wedi eu sefydlu i gydnabod a gwobrwyo disgyblion, athrawon, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr ac ysgolion sydd wedi dangos llwyddiant ac arfer da mewn chwaraeon dros y flwyddyn ddiwethaf. Cai



Cai Llwyd Jones

Cafwyd seremoni yn y Galeri yng Nghaernarfon. Cai enillodd wobr bachgen y flwyddyn am ei lwyddiant a’i ymroddiad i chwarae tenis. Cafodd ei enwebu gan ei brifathrawes yn ysgol Bethel, cafwyd rhestr fer o dri, a Cai a ddaeth i’r brig. Da iawn ti a phob hwyl i ti yn y dyfodol, - dalia ati i ymarfer!

Llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol

Cafodd Annes Glyn, Bwthyn Cefn Braich gryn lwyddiant yn yr Eisteddfod eleni. Daeth yn fuddugol mewn tair cystadleuaeth: pum englyn milwr,” Taith”, cywydd rhwng18 a 40 llinell,” Neuadd” a’r soned, “Storiwr”. Rydym yn ymfalchïo yn dy lwyddiant a llongyfarchiadau calonnog i ti.

Dathlu pen-blwydd priodas

Ym Mis Awst roedd Elwyn a Bet Jones, Bryn Siriol yn dathlu priodas ruddem - un o Sling yw Elwyn a Bet o Drefor. Maent yn byw yn Rhiwlas ers blynyddoedd ac yma y magwyd y ddwy ferch, Gwen a Meinir. Cofiw’n i Bet ennill Gwobr Daniel Owen y llynedd ac yn y gorffennol cafodd y genod lwyddiant ym mhrif gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd hefyd. Roedd llun eu priodas ar un o’r gwefannau cymdeithasol. Hoffi’r mwstash Elwyn! Llongyfarchiadau i chi eich dau.

Llwyddiant mewn sioe

Rai wythnosau yn ôl roedd llun Eluned Williams, Carreg y Gath yn y Daily Post am iddi ennill y wobr gyntaf am goginio yn Sioe Meirionnydd. Mae’r sioe yn teithio i wahanol ardaloedd ac eleni roedd ar gaeau stad Rhiwlas yn y Bala. Un o Feirion yw Eluned yn wreiddiol ond mae hi, ei gŵr a’r plant wedi ymgartrefu ers blynyddoedd bellach yn Rhiwlas. Llongyfarchiadau, a beth am gael copi o’r rysâit ?

Addysgol

Llongyfarchiadau i’r rhai hynny a fu’n sefyll arholiadau eleni, - pob dymuniad da i chi yn eich cyrsiau addysg uwch. Bydd newidiadau hefyd i’r plant ieuengaf, rhai’n symud o’r cynradd i’r uwchradd ac eraill yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf. Pob hwyl ichi i gyd.

Un a gymrodd “flwyddyn allan” yw Gethin Williams, Caeau Gleision, a bu’n brysur iawn hefyd. Bu’n gyrru fan Tesco, yn cludo nwyddau o ddrws i ddrws, dilyn cwrs i gael cymhwyster i hyfforddi sgïo i’r anabl a hefyd llwyddo mewn arholiadau cymorth cyntaf. Mae’n awr yn mynd i astudio peirianneg ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob dymuniad da i ti Gethin.

Cydymdeimlo

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs

Dyddgu Pritchard Owens, mam annwyl Derfel a’i gymar Sue a nain hwyliog iawn Daron a Tomos. Roedd yn byw yn Rhos Uchaf ac yno hefyd y cafodd hi a’i chwaer, y ddiweddar Rhiannon Evans eu magu. Collodd ei gŵr Tom, un o Dregarth, ar ddechrau’r 70au pan oedd Derfel yn ifanc iawn. Fe’i hyfforddwyd i fod yn athrawes yn y Coleg Normal ac i Birmingham yr aeth i ddechrau dysgu. Dychwelodd i’r ardal a dysgu am gyfnod yn Ysgol Glasinfryn. Wedi cyfnod adref yn magu Derfel bu’n athrawes yn Ysgol Bethel ac wedyn yn Ysgol Llanllechid . Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth ar 21 Awst ac roedd y dyrfa gref oedd yno yn brawf o’i phoblogrwydd a’r parch tuag ati. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Gwynfor Williams a’r Parch. Philip Barnett. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parch. Dafydd Coetmor a’r Parch. Roger Roberts. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd teyrngedau iddi gan y Parch. Philip Barnett a Mr Arwyn Oliver - ef oedd prifathro Ysgol Llanllechid pan oedd Dyddgu yn dysgu yno. Yn ei deyrnged soniodd Arwyn am ei chymeriad arbennig, yn ddiwylliedig, egwyddorol ac amryddawn iawn ac yn athrawes reddfol a ddilynai’r hen drefn. Roedd ganddi gryn ddiddordeb ym myd natur ac yn ôl pob tebyg mae rhai o’i chyn-ddisgybion yn dal i sôn am y profiadau a gawsant, yn enwedig y Clwb Adar a sefydlodd yn yr ysgol. Roedd hefyd yn aelod ffyddlon a gweithgar o Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen, ond roedd ganddi hefyd ddiddordebau tu hwnt i’w milltir sgwar megis cymdeithas y Chwiorydd Bronte. Roedd yn teithio llawer i gyfarfodydd y gymdeithas yma a doedd pellter yn poeni dim arni, - roedd amseroedd trenau ar bennau’i bysedd. Hefyd cafwyd cywydd er cof amdani gan Dilwyn Owen a fu’n cydweithio â hi yn Llanllechid

Roedd cerddoriaeth, yn enwedig emynau a thonau, yn bwysig iddi ac o’r herwydd bu’n cynrychioli’r Eglwys Fethodistaidd ar y Pwyllgor Mawl cyd-enwadol. Soniodd Y Parch. Philip Barnett am y sgwrsio difyr pan yn cyd-deithio â hi ddwywaith y flwyddyn i’r cyfarfodydd hyn.

Bu’n aelod ffyddlon yng Nghapel Pisgah, Rhiwlas, yn organyddes ers blynyddoedd, ac fel hyn y disgrifiwyd hi yn yr angladd, “Yn Wesla i’r carn ac yn Gristion pur.” Yn sicr fe welir ei cholli ym Mhisgah.

Ond er yr amrywiol ddiddordebau a’r teithio y teulu oedd canolbwynt ei bywyd ac fe fydd Derfel, Sue, Daron, Tomos a theulu Alwyn a Carys yn ei cholli’n arw, ac estynnir ein cydymdeimlad atynt. Mae’r pentref hefyd wedi colli cymeriad arbennig yn llawn hiwmor, ac fe fydd colled ar ei hôl.

Merched y Wawr, Rhiwlas

Cynhelir cyfarfod 'swyddogol' cyntaf y gangen ar nos Fawrth, 14 Hydref yn y Neuadd pryd y bydd John Dilwyn Williams yn rhoi sgwrs â’r teitl difyr, 'Owen Jones, Kansas: taid Lloyd George'. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 7.00 fel arfer ac mae croeso cynnes i bawb. Byddai'n braf iawn gweld aelodau newydd yn troi i mewn atom ni. Mae rhaglen amrywiol wedi’i pharatoi ar gyfer y flwyddyn.

Ar nos Iau, 25 Medi, gwahoddwyd yr aelodau i ymuno â changen Bethesda yng Nghanolfan y Cefnfaes am 7.00 o’r gloch i wrando ar sgwrs gan Hywel Gwynfryn. Bydd raffl a lluniaeth ysgafn yn ystod y noson.

Rhagor o newyddion Rhiwlas dros y dudalen

Rhiwlas (parhad)

Cofio Dr Marshall Yates

Un o Lerpwl oedd Marshall yn wreiddiol ond oherwydd yr Ail Ryfel Byd ac fel miloedd o blant eraill gadawodd y ddinas a dod fel faciwr i Rhiwlas. Ymgartrefodd yn Bronallt gyda John Elwyn ac Enid Jones, neu fel y cyfeiriai atynt, Yncl John ac Anti Enid. Fe gyrhaeddodd wrth gwrs yn uniaith Saesneg ond yn fuan, wrth fynychu'r ysgol, fe ddaeth yn rhugl yn y Gymraeg.

Bu farw ei fam pan oedd yn ifanc, ac o'i weld wedi setlo'n dda yn Rhiwlas gofynnodd ei dad a oedd yn bosibl iddo aros yn y pentref, ac felly y bu. Ymrôdd i fywyd y pentref a gwneud ffrindiau a barodd gydol ei oes. Cafodd gartref gwerth chweil a phob anogaeth i wneud yn dda ym myd addysg.

Wedi'r cyfnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen fe aeth i Brifysgol Bangor i astudio gwyddoniaeth. Cafodd ddoethuriaeth hefyd yn ei faes arbenigol ac fe ymsefydlodd ef a'r teulu yn Lewis ac yntau'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Sussex. Bu'n teithio dramor efo'i waith yn rheolaidd ac ar ôl ymddeol byddai'n mynd yn aml i Frasil. Roedd yr ardal a'r iaith Gymraeg yn bwysig iddo hyd y diwedd, ac roedd yn ymweld yn flynyddol, ond yn cysylltu'n aml er mwyn clywed am hynt a helynt pobl y pentref a'r ardal.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Ann, ei wraig a'r plant.

Neuadd

To sinc, a'r rhwd yn rhincian yn y gwres:
"Wot's that then, Gran?"
Mae'n trio esbonio'r sbort – hi has-been, Nain ddi-basport – i un â'i fyd dan ei fawd, hwn a impiwyd ar gwmpawd ei ffôn.

Mae'n disgrifio'r ffair, canu iau yn cyniwair, hwyl 'steddfod. Yntau'n nodio. Gwell hafan ei wefan o na chyngerdd mewn blwch angof, muriau cul, mieri'r cof.

Ond yr 'Hôl' oedd hyder hon, neuadd hud ei breuddwydion. Palladium fu'r cwt yma, a'r rhwd sydd yn creithio'r ha' yn llwyfan, gwefr bonllefa, oes aur ei huhelgais iau...

Mae ei hŵyr yn rhwym o hyd i'w nythfa ym mhlur rhithfyd; hithau'n canfod, wrth godi'n ddi-app, mai 'hedydd yw hi.

Annes Glynn

Man cychwyn ysgrifennu'r cywydd 'Neuadd' oedd gweld darlun yn fy mhen o 'hen' neuadd bentref Rhiwlas, a'i do sinc, fel yr oedd pan symudom ni yma yn 1976. Mi ddatblygodd y gerdd wedyn wrth feddwl am eiriau enwog Waldo Williams yn ei gerdd 'Pa beth yw Dyn?':

Beth yw byw? Cael neuadd fawr
Rhwing cyfyng furiau.

Cyferbynnu gorwelion ymddangosiadol eang yr hogyn ifanc ar ei i-phone a gorwelion ymddangosiadol cul ei Nain ydw i'n ei wneud yn y cywydd ac yn ryw holi pa un o'r ddau sy'n gweld bywyd yn ei holl ogoniant mewn gwirionedd. Dwi'n meddwl ei fod yn weddol amlwg beth yw fy awgrym i ar y diwedd!

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasingfryn, Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

Tymor newydd

Mae'r haf wedi gwibio heibio a diolch am y tywydd braf a gawsom eleni. Mae'n anodd credu ei bod hi bellach yn fis Medi. Pob dymuniad da i'r rhai ohonoch sydd wedi dechrau ysgol newydd y mis yma, neu efallai wedi dechrau swydd newydd. A phob dymuniad da hefyd i'r rhai o'r ardal sydd newydd ymddeol ac yn edrych ymlaen at gyfnod newydd yn eu bywydau. Os oes gennych chi fwy o amser ar eich dwylo rwan, beth am fynd ati i hel straeon newyddion ar gyfer Llais Ogwan neu sgwennu erthygl? Mae pob cyfraniad yn dderbyniol iawn.

Sgwrs ddifyr

Hyfryd oedd clywed Marian Bryfdir Jones, Bro Eryri, Waen Wen, yn sgwrsio gyda Dewi Llwyd fore Sul 31 Awst, am gynhyrchiad newydd cwmni Opera Cymru, Eugene Onegin sydd ar daith drwy Gymru yn dilyn y perfformiad cyntaf ym Mlaenau Ffestiniog.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Victoria a Ross, 2 Bryn Pwll, Waen Wen, ar enedigaeth mab, Tomos Isaac, ym mis Gorffennaf, ŵyr i Mr a Mrs Mike Bowen, Tyddyn Llywelyn.

Dymuniadau Gorau

Yn ystod yr haf mae Mr Allan Jones, Myrddin Gwyn, Waen Wen wedi cael pen-glin newydd, a da yw clywed ei fod yn gwella yn dda. Mae Mair Griffiths, Pen y Bryn, hefyd wedi cael llawdriniaeth ar ei phen-glin. Anfonwn ein dymuniadau da a'n cofion at y ddau ohonoch.

Priodas



Llongyfarchiadau i Dylan a Sharon, Yr Hen Ardd, Caerhun, ar achlysur eu priodas ar 22 Gorffennaf yng ngwesty'r Quay, Deganwy. Treuliyd eu mis mêl yn teithio yn Yr Unol Daleithiau.

Clwb Cant y Ganolfan

Diolch i'r rhai ohonoch sy'n cefnogi Clwb Cant y Ganolfan yng Nglasinfryn, a llongyfarchiadau i'r enillwyr diweddaraf sy'n cael eu henwi isod. Mae'r Ganolfan yn adnodd gwerthfawr i'r ardal.

Gorffennaf

£20 (35) - Ann Ilsley
£10 (83) - Mike Bowen
£5 (48) - David Williams

Awst

£20 (40) - Ingrid Farrar
£10 (11) Alwyn Williams
£5. (54) Barbara Jones

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

LLYTHYR AT OLYGYDD LLAIS OGWAN MEDI 2014

Bodiwan
21 Lon y Wennol
Llanfairpwll
Ynys Môn
Rhif Ffôn 01248 716767
gwendaglyn@hotmail.com

Annwyl Olygydd

Fel y gwelwch uchod mae gennyf gyfeiriad newydd sbon gan ein bod fel teulu wedi symud i fyw o Dregarth i Lanfairpwll. Wedi deugain mlynedd o sgwennu newyddion Tregarth i'r Llais daeth yn amser i mi roi'r gorau i'r gwaith gan roi cyfle i rywun newydd i chwilio am y newyddion lleol. Bu'n gyfnod difyr dros ben a mwynheais y gwaith yn fawr. Ar y dechrau roedd digonedd o hanes ar gael gan for Glyn yn cadw Moduron Pandy a phob stori yn ei thro yn cyrraedd yno ond daeth yn newid byd. Rhaid wedyn oedd mynd i chwilio am straeon a hanesion lleol. Am dros ddeng mlynedd ar hugain bûm yn cludo'r straeon i Fethesda ar gyfer y gwahanol Olygyddion. Dyna braf oedd dysgu sut i ddefnyddio'r Ebost! Gwyrth yn wir i unrhyw newyddiadurwr.

Diolch o galon i bawb ohonoch sy'n gysylltiedig â'r Llais. Bu'n bleser bod yn rhan o'r papur bro a dymunaf y gorau iddo i'r dyfodol.

Cofion atoch i gyd
Gwenda Davies

Diolch o galon i Gwenda am ei gwaith clodiw dros y blynyddoedd, a phob dymuniad da iddi hi a'r teulu yn eu cartref newydd. [GOL.]

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau mewn ysgol a choleg eleni. Pob llwyddiant i bob un ohonoch yn eich astudiaethau yn y dyfodol.

Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru

Ym mis Gorffennaf a dechrau Mis Awst bu tri o gerddorion ifanc sy'n byw yn Nhregarth yn aelodau o Gerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru. Roedd Elin Kervegant, Tan Dderwen ac Elin Taylor, 11, Tal y Cae, yn chwarae'r soddgrwth yn y Gerddorfa a Gwyn Owen, 9, Tal y Cae yn drympedwr. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch. Dymunwn yn dda i Gwyn fydd yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Gwobr Bryn Terfel ym Mis Medi.

Pen-blwydd Priodas

Llongyfarchiadau i Alwyn ac Alison Lloyd Ellis, Dôl Wern, Tal y Cae ar ddathlu deg mlynedd ar hugain o fywyd priodasol ar 8 Medi. Pob dymuniad da i chi'ch dau ar ddathlu eich Priodas Berl.

Cymrawd y Brifysgol

Yn ystod yr haf urddwyd yr actor Rhodri Meilir, Caerdydd, yn Gymrawd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, am ei waith ym myd y Theatr yng Nghymru. Mae Meilir yn ŵyr i Mrs Edith Hughes, Bro Syr Ifor (Erw Faen) Llongyfarchiadau i Rhodri a'r teulu.

Cyfarfod Blynyddol Canolfan Tregarth

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan nos Fercher, 15 Hydref am 7.00 o'r gloch. Mae angen aelodau newydd; Dewch yn llw.

Canolfan Tregarth

Annwyl ddarllenwyr Llais Ogwan, Ysgrifennaf atoch i apelio am help trigolion Tregarth i gadw'r Ganolfan ar agor. Bydd Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan yn cael ei gynnal nos Fercher 15 Hydref am 7.00 o'r gloch. Mae'r sefyllfa yn argyfyngus erbyn hyn gan fod nifer aelodau'r pwyllgor wedi lleihau dros y blynyddoedd a neb yn dod i lenwi'r seddau gwag, a bydd mwy o fylchau yn digwydd yn fuan. Dim ond pum aelod gweithredol sydd gennym. Bydd y trysorydd yn ymddiswyddo yn y dyfodol agos, ar ôl gwneud gwaith clodliw iawn dros y blynyddoedd, ac yn gadael y ganolfan mewn sefyllfa ariannol gadarn. Mae o leiaf un aelod arall wedi rhoi rhybudd y bydd yn ymddiswyddo ymhen blwyddyn neu ddwy. Mae'r adeilad mewn cyflwr da, ac yn ystod yr hydref bydd cegin newydd, drws mewnol i gadw'r gwres i mewn, a chawelli newydd ar y rheiddiaduron yn cael eu gosod. Felly, yr unig beth sydd ei angen yw gwaed newydd i ysgwyddo'r baich o redeg y Ganolfan. Does dim siop na thafarn yn y pentref, ac efallai na fydd canolfan chwaith.

Yn ddiffuant

Rhys M Llwyd
(Cadeirydd Pwyllgor y Ganolfan)

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Gorffennaf

- 54 Sian Beidas £15
- 47 Janice Doyle £10
- 51 Eleri Jones £5

Mis Awst
10 Rhys Llwyd £15
57 Peter Roberts £10
45 Dafydd Owen £5

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

- 21 Medi** Un gwasanaeth yn y plwyf 10.30 yn Eglwys Maes y Groes
- 28 Medi** 10.30 y.b. Diolchgarwch 6.00 y.h. Hwyrwl weddi ar gân.
- 5 Hyd.** Un gwasanaeth yn y plwyf. 10.30 St Tegai
- 12 Hyd.** 9.45 y.b. Cymun Bendigaidd
- 19 Hyd.** 9.45 Boreol Weddi

Clwb Cant

Gorffennaf
£10 (27) Catrin Roberts
£10 (66) Keith Jones
£5 (168) Vivien Williams

Awst
£10 (72) Gwyneth Williams
£10 (73) Martyn Lewis
£5 (156) Tim Jones-Griffiths

Yn ystod yr haf cawsom farbiciw llwyddiannus. Fe'i cynhaliwyd yn y Gelli o dan ofal David a Nikola. Cafodd pawb noson ddfyfr gyda digon i'w fwyta. Hefyd, unwaith eto, cynhaliwyd te bach yn ystod mis Awst. Ar ddydd Sul, 24 Awst, cafodd tri eu bedyddio. Dymunwn bob bendith ar Scarlet, Anwen a Jack.



Drama Capel Brynteg: Mae'r plismon ar y chwith yn y darlun yn dad i Elinor Holland, Tregarth a anfonodd y llun atom.

Capel Shiloh

Mae un o deuluoedd sy'n aelodau yn Shiloh wedi cael profedigaeth yn ystod yr haf. Ym Mis Awst bu farw Eric Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandygái yn sydyn iawn. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei briod Iris, ei feibion Geraint ac Arwyn, ei ferch yng nghyfraith Myfanwy a Neville, Angharad a Jean.

Llongyfarchiadau i un o aelodau'r Capel fydd yn dathlu ei be -blwydd yn 89 yn ystod Mis Medi, sef Mr Jack Roberts, Allt Pen-y-bryn, Bethesda. Llongyfarchiadau oddi wrth yr aelodau i gyd.

Gwasanaethau yn Shiloh

Yr Ysgol Sul am 10.30 a gwasanaethau'r hwyr am 5.00 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

- 14 Medi Y Diacon Stephen Roe, Borth.
- 21 Medi Y Parch. Geraint Roberts, Borth.
- 28 Medi Trefniant Lleol
- 05 Hyd. Y Parchedig Philip Barnett am 2.00
- 12 Hyd. Mererid Mair, Caernarfon
- 19 Hyd. Oedfa Deulu y Diolchgarwch am 10.00 yng nghwmni'r Parch. Huw John Hughes, Porthaethwy.
- Nos Lun 20 Hydref Pregeth y Diolchgarwch am 6.00 o'r gloch
- Hyd. 26 Trefniant Lleol

Mynydd Llandygái

Theta Owen
Gwêl y Môr, Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Diolch

Dymuna Alan a Bronwen Davies, gynt o Dyddyn Canol, Mynydd Llandygái, ddiolch i'w ffrindiau a chymdogion am y cardiau niferus a'r dymuniadau gorau y maent wedi eu derbyn ar achlysur symud i fyw i'r Borth yn Sir Fôn. Diolch yn fawr.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Charlotte a Chloe Ward, y ddwy wedi graddio yn y Brifysgol. Dymunwn y gorau i chi yn eich gyrfa newydd. Llongyfarchiadau hefyd i Sioned O'Connor sydd, hithau, wedi graddio. Pob lwc a dymuniad da i chi. Mae eraill wedi graddio a llawer wedi gwneud yn dda yn eu harholiadau. Da iawn chi. Dymunwn yn dda i bob un oonoch.

Brysiwch Wella

Mae amryw um heb fod yn rhy hwylus eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae Mrs Oliver wedi bod yn yr ysbyty a Mrs Helen Williams wedi torri asgwrn ei throed. Cafodd Mrs Gwenda Evans driniaeth i'w llygad. Dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Gwasanaethau

- Medi 14: Cymun Bendigaidd
- Medi 21: Cymun Bendigaidd
- Medi 28: Gwasanaeth Diolchgarwch
- Hyd. 5: Gwasanaeth Teuluol
- Hyd. 12: Cymun Bendigaidd.

Dechreuir am 9.45. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir y "Bore Coffi" blynyddol yng Nghanolfan Cefnfaes y flwyddyn hon, fore Sadwrn, 27 Medi am 10 o'r gloch. Cofiwch alw am baned a sgwrs!

Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau, yn enwedig y Gwasanaeth Diolchgarwch ar yr 28ain o'r mis hwn. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref neu unrhyw wasanaeth arall, cysylltwch â'r wardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434).

Unwaith eto daeth blwyddyn "Clwb Cant" mynwent St. Ann i ben. Diolch i bawb sydd yn cyfrannu ac os am ail-ymuno neu gyfrannu o'r newydd cysylltwch â Lynda Owen, 2 Bryniau Terrace, Mynydd Llandygai. Diolch i Lynda am ei gwaith ac i bawb am eu cefnogaeth.

Yn dilyn gwyliau hir yr haf bydd nifer o'n pobl ifainc yn wynebu sialensiau newydd; dymunwn bob lwc iddynt wrth eu gwaith.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau'r mis aeth nifer o aelodau'r gangen ar daith gerdded yn Nant Ffrancon gan godi swm parchus at dreuliau'r Plaid Lafur.

Ganol y mis aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod o Blaid Lafur Arfon (lle etholwyd Susan Davies o Hen Barc yn swyddog aelodaeth) ac i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru, yn bennaf i gael trafodaeth efo Chris Ruane, AS Dyffryn Clwyd, a Mark Tami, A.S. Glannau Dyfrdwy. Nodwyd bod polisiau U.K.I.P. i'r dde o bolisiau'r Toriaid a bydd ymdrech i dynnu sylw'r etholwyr at hyn.

Tua diwedd y mis cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen i dderbyn adroddiadau ac i baratoi ar gyfer yr hydref, e.e. y bore coffi a chanfasio'r etholwyr. Nodwyd bod dau gynghorydd sirol wedi gadael grŵp Plaid Cymru.

Cynhelir y cyfarfod cangen nesaf ar bedwaredd nos Fercher mis Medi (y 26ain) am 7.30pm yng Nghanolfan Cefnfaes. O hyn ymlaen bydd cyfarfodydd Plaid Lafur Arfon yn cael eu cynnal ar ail nos Wener y mis.

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gangen yng Nghanolfan Cefnfaes ar nos Fawrth, 29 Gorffennaf. Paul Rowlinson oedd yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd, Rheinallt Puw.

Ymhlith Adroddiadau o'r Cymghorau cafwyd gwybodaeth angenrheidiol a phwysig am Bartneriaeth Ogwen gan y Cynghorydd Neville Hughes

Roedd pawb yn falch bod Neuadd Ogwen yn agor ar ei newydd wedd

Anfonwyd llythyrau at Arriva gan y Cynghorydd Dafydd Meurig a chan y Cynghorydd Ann Williams ar ôl iddynt dderbyn yr holl gwynion am y trafferthion. Trafodwyd hyn yng nghymhorthfa Hywel Williams A.S. hefyd.

Wrth sôn am y newidiadau yn y Swyddfa Bost pwysleisiwyd eto bod ffurflen sylwadau ar gael i'w llenwi a dylem wneud yn fawr ohonynt.

Soniodd y Cynghorydd Dafydd Owen am y mater o dorri gwrychoedd yn ardal Tregarth. Bydd Gangiau Cymunedol o gwmpas y Dyffryn cyn hir.

Gwerthfawrogir y gwaith a wneir gan rhai o aelodau'r Plaid gyda Balchder Bro. Ers y cychwyn bu casglu sbwriel sawl gwaith a harddu tipyn ar y Dyffryn drwy fynd ati i blannu blodau. Yr haf yma eto braf oedd gweld basgedi crog yn llawn blodau o gwmpas y lle. Diolch i bawb sydd ynglŷn â'r fenter yma.

Gwnaed trefniadau ar gyfer Bore Coffi a Noson Gymdeithasol yn mis Hydref. Derbynnir adroddiadau misol gan Alun Ffred AC a Hywel Williams AS, a nodwyd bod Hywel Williams, ym mis Gorffennaf, yn son am y Ddeddf Casglu Data, ac fel y gwnaeth ef a'i gyd-aelodau yn San Steffan , sef Elfyn Llwyd a Jonathan Edwards, bleidleisio yn erbyn y Mesur yma. Mae'n Ddeddf a fydd yn bygwth preifatrwydd pawb yn y pen draw ac nid dim ond pobl dan amheuaeth.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe? © Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1893

• 05/03/1893 (Sul): Marw'r cerddor R[ichard] S[amuel] Hughes, yn 38 oed, a'i gladdu ym Mynwent Eglwys Glanogwen (Dydd Mercher, 08/03/1893). Cafodd angladd tywysogaidd, gyda'r parchedig David Adams, Gweinidog Capel Bethesda, yn gwasanaethu. Roedd nifer o gorau'n bresennol a'r Seindorf yn canu'r 'Dead March' ar lan y bedd. Ganed ef 14/07/1855 yn Aberystwyth. Ei rieni'n gerddorion da, yntau'n gallu chwarae'r consartina pan oedd yn 4 oed a'r piano pan oedd yn 5 oed. Derbyniwyd ef i'r Royal Academy of Music pan oedd yn 15 oed. Y gân gyntaf a gyfansoddodd oedd 'Wyt Ti'n Cofio'r Lloer yn Codi?'. Ef a gyfansoddodd 'Y Golomen Wen', 'Llam y Cariadon', 'Y Dymestl', etc., a llawer o anthemau a thonau. Daeth i Fethesda yn 1887, pan benodwyd ef yn Organydd Capel Bethesda (ar gyflog o £35 y flwyddyn) a thirgai yn Rhes Douglas (lle mae llechen las gorfiedig yn dynodi ei

gartref). Roedd 'Arafa Don' yn un o'i gyfansoddiadau poblogaidd a dyna'r enw a roddwyd ar Capel Bethesda pan gafodd ei droi'n fflatiau.

• 20/06/1893: Geni Richard Edmund Hughes, prifathro Ysgol y Cefnfaes, 1930-1944.

• 22/07/1893: Cwmni Hunslet (Leeds) yn gorffen adeiladu Blanche (a Linda wythnos yn ddiweddarach) yn barod i'w hanfon i Chwarel y Penrhyn. Enwyd hwy ar ôl aelodau o deulu'r Penrhyn.

• 18/08/1893: Pwyllgor, dan gadeiryddiaeth W. J. Parry, Llys Coetmor, yn cyfarfod ym Methesda i hyrwyddo'r bwriad o sefydlu ysgol uwchradd yn yr ardal. Penderfynwyd symud ymlaen i sefydlu ysgol ac aethpwyd ati i wneud y trefniadau angenrheidiol. Fodd bynnag, fel yn achos y rhan fwyaf o'r ysgolion eraill yn y cyfnod hwn, 'doedd yr ysgol go iawn, fel petai, ddim yn barod mewn pryd ar gyfer y dyddiad agor swyddogol a bu'n rhaid agor yr ysgol mewn caffï.

• 17/09/1893: Marw Edwin Cynrig Roberts, 55 oed, un o brif sefydlwyr y Wladfa ym Mhatagonia. Claddwyd ef ym Mynwent Eglwys St Ann.

• Codi ffordd newydd a phont i'r Gerlan. Cost: £977.

• 277 o blant ar lyfrau Ysgol y Cefnfaes.

• Côr Meibion Bethesda (dan yr enw 'Penrhyn and Dinorwic Choir') yn cystadlu yn Ffair Fawr y Byd, Chicago. Daethant yn ail allan 7 o gorau meibion a chawsant wobr o £100.

• Y Cyngor Dinesig yn sefydlu ffeiriau ym Methesda – i'w cynnal ar Fai 2 a Medi 28 – ar dir Garneddwen (lle codwyd Adwy'r Nant yn y 1930au).

• Ehangu Ysgol y Gerlan. Adeiladwyd gan yr Arglwydd Penrhyn ond trosglwyddwyd i'r Eglwys ym mis Mawrth 1872. Robert Jones, Cloth Hall, Bethesda.

I'w barhau

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Llandygái
Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf o'r Cyngor yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygái gyda'r Cynghorydd Huw P. Jones yn y gadair.

Waliau
Cafwyd gwybodaeth fod y waliau yn ardal Sling wedi cael sylw gan y Cyngor Sir.

Torri gwair
Mae'r Cyngor wedi hysbysu'r Cyngor Sir am gyffyrdd sydd angen torri gwair er mwyn i yrrwyr ceir weld yn gliriach.

Bydd y Cyngor hefyd yn hysbysu'r Cyngor Sir o ddifrod ar lwybr cyhoeddus oherwydd dŵr sy'n codi gerllaw Llandygái.

Byddant hefyd yn hysbysu'r Cyngor Sir am ddifrod sydd wedi digwydd i Bont Tŵr.

Graffiti
Bydd yr Heddlu yn cael gwybodaeth yn fuan bod graffiti wedi anharddu'r sedd gerllaw Pengamfa.

Cyfethol
Penderfynwyd cyfethol Mrs Susan Roberts i lenwi sedd wag ar y Cyngor.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Einir Frodsham am y gweithgareddau ym Mynydd Llandygái, a'r Cynghorydd Rhys Llwyd ynglŷn â Chanolfan Tregarth.

Gwybodaeth Bwysig i Gleifion

Bydd Meddygfa Bethesda yn cael system gyfrifiadurol newydd ddiwedd Hydref. Gan hynny gofynnwn i gleifion beidio â gwneud apwytiad rhwng 24 Hydref a 27 Hydref os nad yw'n hollol angenrheidiol. Bydd y feddygfa wedi cau ar ddydd Mawrth 28 Hydref heblaw am y clinig argyfwng rhwng 9.00 a 10.00 y bore a 2.00 a 3.00 y prynhawn. Mewn achos brys o'r fath gallwch weld y meddyg fydd ar gael heb apwyntiad. Hefyd bydd meddyg ar gael rhwng 8.00 y bore a 6.30 yr hwyr i ymateb i unrhyw alwadau ffôn am gymorth brys.

Trefniadau ar gyfer ail bresgripsiwn
O 22 Medi, nes i'r system gyfrifiadurol gael ei newid, bydd cleifion sy'n gofyn am ail bresgripsiwn yn cael dau bresgripsiwn yr un pryd, fel na fydd angen iddynt ofyn eto yn ystod y cyfnod pan fydd y cyfrifiaduron yn cael eu trin.

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra a achosir gan hyn a gofynnwn i chi fod yn amyneddgar tra byddwn yn dod i arfer a'r system newydd.

Y Doctoriaid Jones, Woodvine, Fillingham a Thorne

Hanes Taith Fflandrys

PENWYTHNOS Y COFIO A'R DADORCHUDDIO



Gyda chymylau duon rhyfel unwaith eto'n cronni ar y gorwel bu penwythnos 16-17 Awst 2014 yn un llawn emosiwn ar dir Fflandrys. Daeth cyfle wedi ymgyrch dros gyfnod o dair blynedd i ddadorchuddio cerflun o'r Ddraig Goch fel cofeb i filwyr o Gymru a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r gofeb wedi'i gosod yng Nghefn Pulkem, Langemark, a welodd dywallt gwaed dychrynllud yn ystod yr ymladd.

Aeth cannoedd o Gymry, nifer fawr ohonynt o Ddyffryn Ogwen, drosodd am y penwythnos a chafwyd croeso arbennig gan y trigolion lleol. Bu Alwyn a Glena Bevan yn flaenllaw yn y gweithgareddau i sicrhau llwyddiant y fenter ac maent am ddiolch ar ran y Pwyllgor i bawb a gyfrannodd tuag at yr ymgyrch. "Codwyd £131,000 tuag at y cynllun drwy wahanol weithgareddau," medd Glena. "Bu'n benwythnos llwyddiannus iawn gyda rhai cannoedd o Gymry yn mynychu'r gweithgareddau. Roedd yn benwythnos emosiynol iawn," ychwanegodd.

Côr Rygbi'r Gogledd a ddewiswyd fel Côr ar gyfer yr holl ymgyrch a'r apêl ariannol a buont hwy yn brysur am dair blynedd yn teithio Cymru i gynnal cyngherddau. Yn ystod y penwythnos buont yr un mor brysur, gyda Rhys Meirion a'r telynor Dylan Cernyw yn cymryd rhan yn y gwasanaeth dadorchuddio a'r cyngherddau llwyddiannus a gynhaliwyd yno.

Roedd yn benwythnos bythgofiadwy i un o ddisgyblion Ysgol Llanllechid, sef Gwydion Rhys. Bu'n chwarae'r sielo yn y seremoni dadorchuddio yn ystod y prynhawn Sadwrn, seremoni a gynhaliwyd mewn tair iaith, sef Cymraeg, Fflandreg a Saesneg, cyn symud ymlaen i Barc Declaen i Eglwys St Paul's Langemark lle bu cyngerdd mawreddog o flaen cynulleidfa o dros 1000. Y pnawn Sul canlynol cynhaliwyd gwasanaeth ger bedd Hedd Wyn yn Artillery Wood, gyda thros 800 yn bresennol. Braf oedd cael cwmni Eiwin Ureel a Mark Decaskaber, dau o'r pentref a fu'n gymaint o gymorth i'r pwyllgor gyda'r holl drefniadau. "Gwasanaeth emosiynol, heddychlon ac arbennig iawn", yn ôl Glena Bevan.

Gyda'r nos daeth tyrfa anhygoel o dros 3,800 i Borth Menin lle y seiniwyd y 'Last Post', cyn i Rhys Meirion roi datganiad teimladwy iawn o 'Dwed wrth fy Nhad,' a'r Côr yn cloi'r gweithgareddau drwy ganu "Gwahoddiad". Nid oedd llygad sych ymysg y dorf.

"O'r diwedd mae gan Gymru gofeb i'r miloedd a aberthodd eu bywydau rhwng 1914 a 1918. Roedd yn fraint ac yn anrhydedd cael bod yn bresennol a chael diolch am aberth yr holl Gymry a gollwyd," medd Glena.



Llun yn dangos y ffrâm a osododd Gwydion ar ochr dde'r gofeb, ac ynddi luniau'r ddau frawd o Dyddyn Dicwm a laddwyd yn y Rhyfel Mawr, sef Richard Jones (Dic - ar y top) a Thomas Richardson Jones (Tom). (Mae'r llun ar y chwith yn un o filwr o'r De y bu James, hogyn ifanc o Gastell-nedd, yn siarad amdano.)

TAITH GERDDED FLYNYDDOL RAYMOND AC ANN TUGWELL

Unwaith eto eleni trefnodd Raymond ag Ann Tugwell daith gerdded nodedig lwyddiannus iawn. Roedd nifer fawr o gerddwyr wedi casglu wrth y Clwb Rygbi i ddal y bws at Lyn Ogwen yn gynnar, ac er fod y bore yn wlyb nid amharodd hynny ddim ar ysbryd y cerddwyr wrth iddynt gychwyn ar y daith i lawr y nant yn ôl i'r Clwb. Yn wir erbyn dechrau'r prynhawn roedd yr haul yn gwenu arnynt.

Codwyd y swm anrhydeddus o £3288. 11c tuag at achosion lleol, a throsglwyddwyd swm o £2000 i gronfa Apêl Sion Guto. Da oedd deall ychydig ddyddiau cyn y daith fod Siôn wedi derbyn trawsblaniad a bod yr argoelion yn dda. Roedd y newydd yma ynddo'i hun yn llonni'r cerddwyr gan eu gwneud yn fwy pendant fyth o gyrraedd pen y daith. Cyflwynwyd gweddill yr arian i Nyrs Eleri tuag at gronfa CLIC yn Ysbyty Gwynedd. Dywedodd ei bod yn hynod falch o dderbyn y swm mawr yma i helpu plant Môn ac Arfon sy'n derbyn triniaeth cancr a lwcemia.

Mae'r trefnwyr yn ddiolchgar i Gwyn a Marian. Becws Cae'r Groes am y bara, Jonathan (Londis) am y nwyddau ar gyfer y picnic ac am hel gymaint o arian at y gronfa, Anti Doris, Fferm Maes Caradog am ddarparu lle i bawb fwynhau'r picnic, ac i Gerbydau Eifion am drefnu cludiant. Wrth gwrs mae'r diolch i'r cerddwyr ac i bawb a noddodd hwy.

Cysylltwch â Raymond os y teimlwch bod elusen lleol yn haeddu help pan gynhelir y daith nesaf y flwyddyn nesaf.



Mrs Ann Tugwell yn cyflwyno sic e Bwyllgor Apêl Siôn Guto.

MYNWENT YR EGLWYS, COETMOR

Fel yr adroddwyd mewn rhifyn blaenorol o Llais Ogwan, roedd yn fwiad gan Glwb Garddio Eglwys Glanogwen wneud apêl ariannol i gynnal a chadw'r fynwent yn y cyflwr gorau posibl.

Roedd gan y Clwb stondin ym Marchnad Cynnyrch Lleol Ogwen ddydd Sadwrn, 9 Awst 2014 a bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn. Cyfrannodd nifer helaeth roddion ariannol tuag at goffrau cynnal y fynwent, nifer rhy helaeth i'w rhestru yma, a dymuniad aelodau'r Clwb Garddio a'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yw diolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd mor hael. Yr un yw'r diolchiadau hefyd i'r nifer a gyfrannodd trwy law y warden Gilbert Bowen.

Diolch mawr hefyd i bawb a ddaeth i'r Farchnad yn Neuadd Ogwen, sydd bellach ar ei newydd wedd, i gefnogi Stodin y Clwb a gwario ar y Tombola a'r Raffl a'r amrywiol gemau Bu hyn yn hwb da iawn i gryfhau'r coffrau.

Diolchiadau mawr hefyd i bawb a fu'n cynorthwyo gyda threfniant y stondin ac i Bwyllgor Rheoli'r Farchnad am ganiatáu i'r stondin gael lle ar y diwrnod.

Partneriaeth Ogwen

Bydd rhai ohonoch wedi sylwi ar fflach o liw newydd ar Stryd Fawr, Bethesda yn ddiweddar. Mae'r gwaith adeiladu ac adnewyddu ar brynant eiddo cyntaf Partneriaeth Ogwen wedi ei gwblhau a braf yw gallu dweud fod cydlynnydd prosiectau'r Bartneriaeth bellach yn gweithio ddeuddydd yr wythnos o'r swyddfa. Gwaith cyntaf Meleri fydd sicrhau defnydd o'r siop gan bartneriaid. Mae cownter gwasanaeth newydd wedi osod ac mae Wardeiniaid Ynni Grwp Tai Cynefin eisoes yn gweithio o'r safle unwaith yr wythnos. Mae'r Bartneriaeth hefyd mewn trafodaethau gyda gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, Age Cymru, ZipWorld, Banc Bwyd Caernarfon ac eraill i gynnig gwasanaethau i drigolion y dalgylch.

Mae'r safle hefyd yn cynnig gofod siop grefftiau sydd wedi ei ddodrefnu gyda chefnogaeth cwmni Magnox. Mae'r Bartneriaeth eisiau cefnogi crefftwyr lleol i ddangos eu gwaith a gofynnir i unrhyw grefftwyr gysylltu â Meleri os hoffent arddangos a gwerthu eu nwyddau o'r Siop.



Mae datblygiadau cynyddol hefyd gyda chynllun Hydro Ogwen sy'n bwriadu sefydlu cynllun ynni dŵr cymunedol ar yr afon Ogwen. Mae cynlluniau tebyg eisoes yn cael eu gwireddu ar afon Anafon yn Abergwyngregyn ac mae Partneriaeth Ogwen eisoes yn ymgeisio am grantiau pwrpasol i gynllunio cynllun tebyg er budd trigolion Dyffryn Ogwen. Bydd y Bartneriaeth yn trefnu prynhawn agored yn y siop fis Hydref i rannu gwybodaeth am y cynlluniau arfaethedig.

LLUN O ROBIN OWEN, ERW LAS, GYDA'I WAITH YN Y SWYDDFA

Yn ystod mis Medi hefyd, bydd Meleri a Siôn Richards yn cynnal gweithdy hyfforddiant ar ffilmio a hyrwyddo cymunedol efo disgyblion chweched dosbarth Ysgol Dyffryn Ogwen. Bydd cynnyrch y gweithdy yn cael ei ddangos yn lansiad swyddogol y safle maes o law.

Os am gysylltu â Meleri, ffoniwch 01248 602131 neu ebostiwch partneriaeth@ogwen.org

Cyngor am Ddim ar Arbed Ynni

Bydd Wardeiniaid Ynni Cymunedol Cyngor Gwynedd yn ymweld â Bethesda yn fuan i gynnig cyngor ar leihau eich biliau ynni. Mae'r gwasanaeth annibynnol hwn ar gael am ddim i bawb sy'n byw yn Adwy'r Nant, Maes y Garnedd, Ciltrefnus, Abercaseg, Carneddi, Gernant, Glanffrydlas, Glanogwen a Maes Coetmor. Rydym hefyd eisiau ymestyn allan i ardaloedd gwledig fel Llanllechid a Thregarth. Does dim gwahaniaeth a ydych yn rhentu ynteu yn berchen tŷ.

Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ym Mangor a Chaernarfon a chafodd ei ymestyn i Fethesda ar 9 Medi eleni. Bydd y wardeiniaid ar gael bob dydd Mawrth yng nghanolfan newydd Partneriaeth Ogwen o 10.00 y bore tan 2.00 y pnawn. Neu gallwch ein fffonio ar 07901 390 041. Ein cyfeiriad ebost yw nevilleparry@grwpcynefin.org. Byddwn yn hapus i ateb eich ymholiadau neu i drefnu i ymweld â'ch cartref i ddarparu cyngor.

Yn y gorffennol rydym wedi helpu pobl trwy gynnig cyngor ar fesurau arbed ynni aym, neu ar wahanol dariffau ynni, yn ogystal â helpu pobl sydd mewn dyledion gyda chwmnïau ynni. Rydym hefyd wedi helpu pobl i wneud ceisiadau llwyddiannus o dan gynlluniau fel Disgownt Cartref Cynnes a Nyth, sy'n gallu helpu pobl sydd mewn tlodi tanwydd.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac am ddim, felly cysylltwch â ni nawr.

Neville Parry, Sylvia Peat, Siôn Roberts, Meilir Tomos, Sandra Kargin.

TRYCHINEB FORWROL FWYAF CANADA



Mae'r rhan fwyaf os nad pawb o ddarlennwyr y Llais wedi clywed am y llong Titanic a fu mewn gwrthdrawiad â mynydd iâ ar y 14eg o Ebrill 1912. Roedd 2223 o bobl ar fwrdd y Titanic a dim ond 706 ohonynt a achubwyd.

Tybed sawl un o ddarlennwyr y Llais sydd wedi clywed am yr 'Empress of Ireland', llong o eiddo'r Canadian Pacific Railway Company. Cafodd ei hadeiladu yn Govan, Glasgow ar gost o £375,000, ac roedd yn pwyso 14,190 tonnelli, gyda 16 bad achub dur, 20 'Englehart collapsible' a chwe chwch bach arall. Fe'i lanswyd ar 27 Ionawr 1906.

Hon oedd mordaith trawsiwerydd rhif 96 iddi, ac roedd hi'n hwylio o Quebec i Lerpwl pan fu mewn gwrthdrawiad ar 29 Mai 1914, mewn niwl trwchus yn oriau mân y bore, â'r SS Storstad, llong lo o Norwy, yn afon St Lawrence. Roedd 1477 ar ei bwrdd, 420 o griw ac 1052 o deithwyr. Ymysg y rhain roedd 170 o fand Byddin yr Iachawdwriaeth Canada a oedd ar eu ffordd i Brydain i gymryd rhan mewn cynhadledd, a bu 150 ohonynt farw.

Capten yr 'Empress of Ireland' oedd Henry Kendall, a anwyd ym 1874 ac a ddechreuodd ei yrfa ar y môr yn bedair ar ddeg oed. Goroesodd sawl llongddrylliad ac fe ddaeth yn enwog am ei ran yn dal y llofrudd Dr Hawley Harvey Crippen, gan mai ei neges radio a rybuddiodd yr heddlu yn Scotland Yard fod y llofrudd ar fwrdd ei long, yr SS Montrose, a oedd ar ei ffordd i Ganada. Cafodd ei ddychafu'n gapten ar yr 'Empress of Ireland' ychydig wythnosau cyn y trychineb.

Roedd y rhan fwyaf o deithwyr yr 'Empress of Ireland' yn cysgu pan fu mewn gwrthdrawiad â'r SS Storstad, ac ni chafwyd amser i lansio'r holl fadau achub gan iddi suddo mewn llai na 15 munud. Taflwyd y capten i'r môr ond fe'i achubwyd gan rai mewn bad achub, ac yn ddioed aeth ati i achub eraill. Bu farw 840 o deithwyr a 172 o'r criw yn y drychineb fwyaf yn hanes morwrol Canada. Ymhlith y 465 a achubwyd yr oedd mab Mrs Janet Williams, Coed y Parc, sef Thomas Williams. Roedd wedi treulio blynyddoedd lawer ar y môr ac yn 'Chief Steward Second Class' ar fwrdd yr Empress of Ireland. Un arall o fechgyn Bethesda ar ei bwrdd, yn gweithio fel 'third class steward' ers tua dwy flynedd, yr oedd Harold Jones, llanc dwy ar hugain oed, ond yn ôl telegram a dderbyniodd teulu Thomas o Quebec, ni oroesodd Harold. Mab Mr Owen T. Jones, 13 Rhes Elfed (Waterloo Hotel gynt) oedd Harold. Yn ôl cyfrifiad 1911 roedd Mr Owen T. Jones wedi colli ei wraig ac yn byw yn Rhes Elfed gyda'i blant Alice, Harold, Blodwen ac Elfed, (a oes disgynyddion y teulu yma dal i fyw yn yr ardal?). Cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn eglwys Glanogwen i Harold ar nos Iau'r 4ydd o Fehefin 1914. Cymerwyd rhan gan Y Canon R.T. Jones B.A. a'r Parch. J.W. Roberts Glanogwen, ac roedd yr eglwys yn llawn o'i hen gyfeillion a'i gydnabod. Bu amryw o Gymry yn perthyn i'r criw, gyda thri yn dod o Fangor, W. Roberts, steward; J. Wildman, storekeeper; a W. Bray.

Ar yr ail o Hydref 1914 fe ymddangosodd cyhoeddiad yn y North Wales Chronicle fod Thomas Williams Coed y Parc wedi'i benodi i swydd debyg i'r hon a ddaliai ar yr Empress of Ireland, gan gwmni'r Canadian Pacific Railroad Co. ar fwrdd eu llong newydd 'Missanabie' a oedd i wneud ei mordaith gyntaf ar y 7fed o Hydref, i Quebec. Suddwyd y Missanabie ym môr Iwerddon ar y 9fed o Fedi 1918 wrth gludo milwyr, gyda 45 o golledion. Mae'n debyg bod Thomas wedi'i drosglwyddo i long arall cyn i'r Missanabie ddechrau cludo milwyr.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 – 11.00

Sadwrn: 3.30 – 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -

plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

STEPHEN
JONES



TREFNYDD
ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn

Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455

gartref 602455

personol 07770 265976

Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Marchnad Ogwen



Dyma lun o Farchnad Ogwen Awst yn Neuadd Ogwen am y tro cyntaf.

Wel, mae Marchnad Ogwen yn ei chartref newydd yn llwyddiant sicr. Daeth nifer dda i ymweld â ni yn Neuadd Ogwen - yn arbennig ym mis Awst. Mae nifer o stondinau newydd erbyn hyn gan fod mwy o le yn y Neuadd. Yn wir, mae'r Farchnad yn mynd o nerth i nerth. Dywedodd un cwsmer caredig mai safon uchel y nwyddau sy'n gyfrifol am hyn!

Cafodd y 'cardiau ffyddlondeb' - sy'n cael eu rhannu yn rhad ac am ddim - groeso. Fe gewch banded am ddim wedi i chi ymweld â'r Farchnad dair gwaith ac fe fydd un person lwcus yn cael anrheg Nadolig!

Mae Arthur Jones yn cynnal y 'Stondin Un Tro' y mis nesaf i werthu ei waith coed ardderchog.

Apêl Siôn Guto sydd gyda'r Stondin Elusen ym mis Hydref. (Y mis nesaf sy'n rhydd yw Chwefror). Mae Bwrdd Gwybodaeth gennym sy'n rhoi manylion am sut i gael Stondin, pa fis sy'n rhydd i'r ddwy Stondin dros dro ac yn y blaen. Mae ffurflenni cais ar gael yn y Farchnad.

Ond pwysicach na dim yw ein hamrywiol stondinau arferol sy'n barod i'ch croesawu bob mis! Dewch i archebu eich nwyddau Nadolig unigryw yn fuan!!

Felly croeso cynnes i chi i'r Farchnad ar 11 Hydref yn Neuadd Ogwen o 9.30 tan 1.30. Nid oes tâl mynediad i Neuadd Ogwen pan fyddwch yn ymweld â'r Farchnad.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd ar Facebook

MIRI MEURIG, MURLUNIAU A MWY



Ddydd Sadwrn y 23 Awst cynhaliwyd diwrnod o firi a hwyl i'r teulu ym Mharc Meurig ac, er y glaw, daeth tyrfa wych allan i gefnogi. Roedd y 'miri' yn cynnwys llwyfan perfformio gyda doniau lleol yn cynnwys Hogia'r Bonc, Siôn Bailey, Stephen a Gwydion Rees a Manon Steffan Ross ac oddi ar y llwyfan, arweinwyd 'tipi' Sesiynau Stori gan Angharad Llwyd ac eraill gydag ambell stori arbennig o Lyfr Mawr y Plant – un o lyfrau mwyaf eiconig awduron Dyffryn Ogwen. Roedd nifer o gyfleoedd crefft yn ystod y dydd yn ogystal gyda cyfres o weithdai crefft a helpa Llyfr Mawr y Plant o amgylch y parc. Roedd cyfle hefyd i grwydro stondinau crefft, bwyd a diod a chyfle i ymlacio a gwrando ar gerddoriaeth yn awyrgylch hamddenol y parc.

Mae'r digwyddiad yn enghraifft o drigolion Bethesda yn gweithio efo'i gilydd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer ein plant a phobl ifanc. Yn ystod y digwyddiad, roedd yr artist enwog Catrin Williams yn cynnal gweithdy pypedau o gymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Roedd hyn yn barhad o'i gwaith diweddar yn llunio murlun lliwgar gyda phlant Ysgol Dyffryn Ogwen sydd wedi ei osod ar dalcen 61 Stryd Fawr, Bethesda. Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i drigolion gael cip ar gerfluniau newydd sydd wedi cael eu cerfio gan ddisgyblion yr ysgolion cynradd lleol a'u gosod yn y parc gan adran Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd. Mae'r placiau llechen yn nodi enwau rhai o gymeriadau enwog Llyfr Mawr y Plant – Siôn Blewyn Coch, Wil Cwac Cwac a mwy.

Meddai Meleri Davies, aelod o'r pwyllgor trefnu, “Mae Parc Meurig yn adnodd bendigedig i drigolion yr ardal a roedd hi'n braf gwneud defnydd o'r lleoliad. Hoffai'r pwyllgor o wirfoddolwyr ddiolch i bawb am droi allan i gefnogi'r digwyddiad.”

Trefnwyd y digwyddiad gan griw o wirfoddolwyr lleol gyda chefnogaeth Neuadd Ogwen, Cyngor Gwynedd, Grŵp Cymunedol Dyffryn Ogwen, Partneriaeth Ogwen, Cyngor Cymuned Bethesda a Chyngor Cymuned Tregarth a Mynydd Llandygái. Dechrau'r daith yw Miri Meurig a bwriad y pwyllgor yw parhau gyda'r gwaith gan ddatblygu cyfres o ddigwyddiadau i blant a theuluoedd ym Methesda mewn partneriaeth a Neuadd Ogwen. Bwriedir parhau gyda'r gwaith trwy drefnu 'Miri Nadolig' yn Neuadd Ogwen cyn diwedd y flwyddyn.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

SWYDDOG MAES CYNORTHWYOL

Dyma swydd ran-amser, un diwrnod yr wythnos. Bydd y sawl a benodir yn gyfrifol am gydweithio gyda Swyddog Maes y Gogledd i wasanaethu aelodau UCAC yn rhanbarthol. Bydd gwybodaeth am fyd addysg a/neu faterion cyflogaeth yn fanteisiol.

Cyflog £36,679 - £39,383 (*pro-rata*).

Ceir ffurflen gais a manylion pellach o Swyddfa UCAC. Bydd angen dychwelyd y ffurflen gais i Brif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU erbyn **CANOL DYDD, DYDD LLUN 29 MEDI.**

Ydych chi'n gwybod am rywun a fyddai â diddordeb mewn gwneud ychydig o waith teipio (Cymraeg) bob mis pan fydd Llais Ogwan yn dod allan.

Tua 4 awr neu fwy.
07902 362213
01248 605743
post@tasg.co.uk



OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne
a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AMDDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT
SYMUD Tŷ

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

Gwasanaethau Coed a Ffensio
Gareth Wyn Jones

Rhif Ffôn Symudol: 07429636270



Torri, Sglodio, Trimio
a thynnu coed peryglus i lawr
Cyflenwr Coed Tân
Strimio, Ffensio Gerddi a
Ffermydd
Rhif Ffôn Symudol 07429636270

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



YSGOL YRRU



07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Croesair Medi 2014

AR DRAWS

- 1 Llinyn clymu esgid (6)
- 4 Hylif ar gyfer 7 I Lawr (5)
- 8 Synhwyrol a chall a moesgar (5)
- 9 Trws gl ac anodd ei reoli (7)
- 10 Beth a wneir yn astud (7)
- 11 Pan yw yn fwy (4)
- 12 Marc i anelu ato (3)
- 14 Y mwyaf o'r cyfandiroedd (4)
- 15 Yn agos i'r erchwyn (4)
- 18 Saffle cliwiau o flaen hwn (3)
- 21 Môn neu Manaw (4)
- 23 Y dringwyr coch a llwyd (7)
- 25 Dageuol (7)
- 26 Ai'r comiwnydd oedd yn was i'r werin yma ? (5)
- 27 Mr. Sbaen (5)
- 28 Bythol ieuanc dduw prydferthwch a nwydau yn chwedlau Groeg (6)

I LAWR

- 1 Lle o addoliad sanctaidd (6)
- 2 M. Thatcher (ganedig) (7)
- 3 Canghennau o fudiad yr Urdd (8)
- 4 Gwaith y fam iâr (4)
- 5 Ansefydlog a simsan (5)
- 6 Defnyddio gliw od a'i wneud yn flêr a hyll (6)
- 7 Mae un lân yn llawn daioni (5)
- 13 Copïo (8)
- 16 Rhagflaenydd y Talwrn (y Beirdd) (7)
- 17 Yn farddonol, cartref 7 I Lawr (6)
- 19 Wrth wneud gwaith corfforol caled (5)
- 20 Sain y garreg ateb (6)
- 22 Yn rhacs gyrbibion (5)
- 24 "Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ----" (3ydd gorchymyn) (4)

ATEBION CROESAIR
GORFFENNAF/AWST 2014

AR DRAWS 1 Paill, 4 Sill, 6 Clai, 8 Mynydda, 9 Ithfaen, 10 Deiliaid, 11 Banc, 12 Nelson Mandela, 17 Pele, 19 Iddewiaeth, 22 Dyfrgi, 23 Diraen, 24 Huws, 25 Nef, 26 Nant


I LAWR 2 Ar y We, 3 Llwyddlas, 4 Smala, 5 Lleithdra, 6 Cofeb, 7 Arennol, 10 Dyn, 13 Efelychu, 14 Neifion, 15 Deigrin, 16 Arth, 18 Emrys, 20 Endaf, 21 Ederm

Croeso'n ôl wedi mis o seibiant, gan obeithio y cewch bleser yn parhau i ddatrys y cliwiau am flwyddyn arall. Cofiwch fod croeso i groeseirwyr newydd hefyd. Rhowch gynnig arni.

Dyma'r rhai lwyddodd i gwblhau
croesair Gorffennaf/Awst yn gywir:

Jean Hughes, Talybont; Gareth W. Jones, Bow Street; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Ellen Whitehouse, Birmingham; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Rosemary Williams, Sara a Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; Elisabeth M. Roberts, Penrhyndeudraeth; E.E. Roberts, Llanberis; Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Rita Bullock, Bethesda.

Ond yr ymgais gywir gyntaf allan o'r het oedd cynnig Mrs. Doris Shaw, 26 Llwyn Hudol, Bangor LL57 1SG Llongyfarchiadau mawr i chi.



Atebion erbyn dydd Mercher, i Hydref 2014 i:
'Croesair Medi', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda.
LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

ebost: gwion@dioni.co.uk
tel: 01341 247 200

**"CYSYLLTWCH Â NI I
HYRWYDDO EICH BWTHYN
GWYLIAU"**

T.G.S

CONTRACTWR TOEAU AC ADEILADU
2 Glan yr Afon, Carneddi, Bethesda LL57 3TB
☎ 08000 126 213 tgsroofing@hotmail.com

**Ffoniwch Mark i drafod eich anghenion adeiladu.
Mae gwarant 20 mlynedd ar ein toeau fflat!**

Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Clwb Criced a Bowlio Bethesda
Noson yng nghwmni

Dafydd Iwan

Nos Wener, 10 Hydref 2014
am 7.30

Darperir lluniaeth ysgafn
Mynediad trwy docyn: £5.00

Trefnir gan Blaid Cymru,
Dyffryn Ogwen

CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Trefnydd : Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth, BANGOR,
Gwynedd LL57 4BA. (01248) 600798
E-bost

RHAGLEN 2014/2015

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch**
AG EITHRIO cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol
am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.30 o'r gloch**

Lleoliad y cyfarfodydd : **Festri Capel Jerusalem, Bethesda**

2014

Nos Lun 13 Hydref 7.00 **Y CYFARFOD BLYNYDDOL**
7.30 **Cadi Iolen a Cynrig Hughes – Dyddiadur**
Chwarelur: 1914-1918

Nos Lun 10 Tachwedd 7.00 **Gerwyn James – Plant y Rhyfel Mawr**
7.00 **Dr. Pam Michael – Hanes Ysbyty Meddwl**
Nos Lun 8 Rhagfyr *Dinbych, 1848-1915: gyda phwyslais ar brofiad rhai*
o'r cleifion o ardal y chwareli

2015

Nos Lun 12 Ionawr 7.00 **Dr. J. Elwyn Hughes – Dyffryn Ogwen a'r**
Rhyfel Mawr, 1914-1918

Nos Lun 9 Chwefror 7.00 **James Griffiths – Cysylltiadau Cerddorol**

Nos Lun 9 Mawrth 7.00 **Dr. Dafydd Roberts – "Dros Ryddid a Thros**
Ymerodraeth": Ymatebion i'r ymgrych recriwtio yn
Nyffryn Ogwen [Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]

FFI AM Y CWRS £6.00 i rai mewn gwaith
Y ffoedd i'w talu i Dafydd Roberts cyn £3.00 i bensiynwyr a'r di-waith
noson gyntaf y tymor, os gwelwch yn Plant ysgol am ddim
dda. Sיעia y daladwy i : Cymdeithas Cost darlithoedd unigol = £1.50
Hanes Dyffryn Ogwen.

Swyddogion y Cymdeithas yn ystad 2013/14:

Cadeirydd : Wynne Roberts, Bryn Diffr, Braich Talog, Tregarth (01248) 602021

Trefnydd / Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, Tregarth. (01248) 600798
Trysorydd:

Ysgrifennydd : Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415

Cyfarfod Blynnyddol

CANOLFAN RACHUB

8 Hydref 2014

am 7.30

Croeso i Bawb

Marchnad Ogwen

BORE COFFI

Plaid Cymru

Sadwrn, 4 Hydref 2014

10.00 i 12.00

Mynediad £1.00

Y Caban, Gerlan Tai Ji

bob nos Fercher
7.00 - 8.30

£3 y sesiwn

Croeso i bawb

**Cymdeithas Rhieni ac
Athrawon Ysgol Llanllechid yn
cynnal**

Ffair Hydref yn

Ysgol Llanllechid
Dydd Sadwrn, 27 Medi
11am – 3pm

Adloniant, stondinau, gemau,
bwyd a digon o hwyl i'r teulu
cyfan

Croeso cynnes i bawb

Manylion pellach:
Iona Robertson: 602658
07747 778577
neu iona.robertson@tesco.net



Os am gynnal bore coffi neu
ddigwyddiad arall yn Neuadd
Ogwen cysylltwch gyda Dilwyn
Owen drwy e-bost
post@neuaddogwen.com neu
drwy ymweld â'r neuadd i drafod.

Dyma rai ffilmiau a digwyddiadau
sydd i ddod:

19 Medi Under the Sun

20 Medi Rio 2

3 Hyd. Noah

4 Hyd. Up

7 Hyd. Crazy Gary's Mobile Disco
gan Gary Owen

11 Hyd. Marchnad Ogwen

17 Hyd. The Godfather

18 Hyd. Mr Peabody and
Sherman

31 Hyd. An American Werewolf in
London

Canolfan Cefnfaes

BORE COFFI

Sadwrn, 27 Medi 2014

10.00 - 12.00

Yr elw at Eglwys St Anne a
St Mair, Mynydd Llandygái

Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Rydym yn cyfarfod bob pythefnos
rhwng mis Medi a mis Ebrill yng
Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda.

24 Medi 2014 am 7.30
LLYNOEDD ERYRI
gyda Geraint Thomas

Os ydych yn mwynhau ffotograffiaeth ,
ar unrhyw lefel, dewch draw!

Canolfan Cefnfaes BETHESDA

GYRFA CHWIST

Medi 23 a 30
Hydref 14 a 28
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

Hydref 11eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Tachwedd 8ed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Creffttau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk

Cymdeithas Bob Owen (Y Casglwr)

FFAIR LYFRAU'R BORTH

yn ei phumed flwyddyn
gyda 50 o fyrdau

Ysgol David Hughes, Porthaethwy, LL59 5SS
10am-4pm Dydd Sadwrn, 27 Medi,

Mynediad: £1.00

Digon o le parcio

Ymholiadau: Ann Corkett a Bruce Griffiths
5 Heol Belmont, Bangor, LL57 2HS
(01248) 371987 anncorkett@talktalk.net

Côr Meibion y Penrhyn

Cymeriadau’r Côr

Cyfres yw hon sy’n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Maldwyn Pritchard a fu, cyn ymddeol, yn gweithio gydag asiantaeth gwerthu tai Dafydd Hardy am 12 mlynedd ar ôl bod gydag Adran Tai Cynghorau Arfon a Gwynedd am 28 mlynedd.



Be’ ydy dy enw llawn?
Maldwyn Pritchard

Oed? (ta’ ydy hynny’n breifat?)
70 (ifanc)

Lle wyt ti’n byw?
Hendyrpeg, Tregarth

Un o lle wyt ti’n wreiddiol?
Maesgeirhen , Bangor

Pa dri o’r rhain fasai’n dy ddisgrifio orau?
Hapus / Bywiog / Anturus / Medrus / Mwynhau Bywyd / Tawel / Hoffi cwmni / Hael / Gofalus efo arian /eisiau bod yn unawdydd / Un sy’n canu yn y bath?
Hapus, Bywiog ac Anturus

Ers faint wyt ti’n aelod o’r Côr?
25 mlynedd

Pa lais wyt ti? Bas 2

Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?
Hoffi canu, cymdeithasu a mwynhau cwmni difyr dros beint ar ôl ymarfer neu gyngerdd.

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?
Myfanwy

Pwy ydy dy hoff ganwr/ gantores?
Elvis Presley a Candi Staton

Beth ydy dy farn di am ganu pop?
Mi fasai’n well gen i wrando ar sŵn tap yn driplan.

Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo’r Côr?
Taith i America yn 1993 a’r cyngerdd yn Beverley yn 2013.

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i’r Côr?
Golff, Bowls a dilyn criced.

Oes yna rywbeth faset ti’n hoffi gweld y Côr yn ei wneud?
Dysgu a chanu mwy o ganeuon Saesneg er mwyn rhoi mwy o adloniant i ymwelwyr mewn cyngherddau fel rhai Llandudno.

CHWILAIR MEDI 2014 Brenhinoedd a Llywodraethwyr Cymru

A	N	Y	L	E	W	Y	L	L	P	A	D	D	Y	F	A	D	A	W	F
H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H
E	S	Y	H	R	P	A	D	D	Y	F	F	U	R	G	I	M	G	I	V
R	L	L	Y	S	I	E	S	P	A	N	Y	L	E	W	E	L	L	A	H
W	N	A	N	Y	C	P	A	D	D	Y	F	F	U	R	G	M	D	G	W
A	H	U	Z	M	X	V	A	H	D	D	A	N	A	P	A	U	Q	O	U
M	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	C	U	G	R	H	C	U	M	W	A	N
I	O	Y	R	I	A	S	Z	L	E	Y	U	T	F	D	X	U	P	P	W
R	R	H	C	Q	H	W	E	L	E	H	R	O	Y	E	E	G	E	I	O
D	M	H	E	P	T	O	B	T	C	B	B	F	C	U	U	J	P	D	L
O	T	M	I	V	F	A	V	D	C	B	B	F	N	R	F	O	G	W	J
H	V	I	I	L	L	R	R	X	I	M	H	T	T	Y	O	S	K	A	O
R	P	W	A	E	R	C	M	K	C	B	O	R	C	X	F	V	R	L	Y
H	S	W	W	T	M	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	R	W	O	S
C	D	Y	R	A	I	X	N	I	L	X	J	J	M	B	W	T	E	E	X
I	H	C	A	D	W	A	L	L	O	N	A	B	L	E	U	A	F	M	M
D	N	I	A	W	O	P	A	D	D	Y	D	E	R	A	M	X	K	F	U
P	L	L	E	D	A	C	P	A	A	D	D	L	E	W	Y	H	C	Q	Y
O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	W	S	L	Z	E	B
E	A	J	K	J	C	L	N	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O

Brenhinoedd a llywodraethwyr Cymru yw testun y chwilair y mis yma. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? Mae LL, CH, DD, TH, NG a RH yn un llythyren yn y Gymraeg, ond at bwrpas y chwilair dangosir hwy fel dwy lythyren ar wahân.

Dyma ni yn rhoi ail gynnig ar chwilair Brenhinoedd a Llywodraethwyr Cynnar Cymru y mis yma gan fod hanner y chwilair ar goll yn y rhifyn diwethaf. Byddwch yn ofalus gan fod rhai o’r enwau yn fwy nag y maent yn ymddangos i ddechrau.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW erbyn 1 Hydref os gwelwch yn dda. Bydd gwobr o £5 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd neb yn dod o hyd i’r deuddeg yna’r sawl sy’n cael y nifer fwyaf fydd yn cael y wobr.

Wal Fawr Tseina



Hoffwn drwy gyfrwng Llais Ogwan, ymestyn fy niolch i bawb ym mro Bethesda am fy noddi i gerdded Wal Fawr Tseina. Wrth fynychu cynhadledd cancer yn Beijing cawson gyfle i godi arian at Ymchwil Cancer Cymru. Mae’r criw yn cynnwys ymchwilwyr cancer a meddygon o Brifysgolion Caerdydd a Beijing.

Roedd y tymheredd tua 37gradd Celsius gyda lleithder uchel iawn, gan ei gwneud yn anoddach i ni ddringo, ond mae cyfanswm yr arian yn £3000 ac yn dal i ddod i mewn.

Diolch eto i bawb,
Dr Alwyn Dart, Rhos y Nant.

I.D.R.**Gwaith Coed ac Adeiladu Cyffredinol**

Am waith o safon uchel

Am bris diguro

Am waith mawr neu fychan

Cysylltwch ag Iwan

☎ 07553 977275

☎ 01248 602062

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Blodau Racca**PENISARWAUN**

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer**

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni **Amlwch** **Benllech**
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth

M.O.T. ar gael

Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth

Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎ 601031

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.**Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*

*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn**CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

**Hysbysebu
yn y Llais**

I hysbysebu yn Llais Ogwen ac i drafod
telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**MODURDY
FFRYDLAS**

Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Athrawes Newydd

Yr ydym yn croesawu athrawes newydd ar ddechrau'r tymor, sef Miss Delyth Hughes i ddysgu Mathemateg. Bu Miss Hughes yn athrawes dan hyfforddiant yma y llynedd ac yr ydym yn ei chroesawu'n gynnes iawn.

Blwyddyn 7



Braf iawn oedd cael croesawu 66 disgybl newydd i flwyddyn 7 ar ddechrau'r tymor yma. Buont yma ar sawl ymweliad yn ystod blwyddyn 6 ac erbyn hyn maent wedi hen setlo!

Ysgol Abercaseg

Bwyta'n Iach



Sawl un ohonoch sy'n gwybod faint o siwgr yr ydych yn ei fwyta bob dydd? Wyddoch chi faint o siwgr sydd mewn potel o lemonêd, bisgeden 'Jammie Dodger', iogwrt mefus neu hyd yn oed fag o greision? Wel os nad ydych yn gwybod gofynnwch i blant dosbarth Ogwen! Fel rhan o waith thema'r dosbarth y tymor diwethaf, gwahoddwyd y nyrsys ysgol draw i sgwrsio gyda'r plant am sut i gadw'n iach ac un o'r pynciau trafod oedd cynhwysion bwyd. Bu pawb wrthi'n ddyfal yn ceisio dyfalu sawl llwy de o siwgr oedd yn rhai o'u hoff fwydydd. Fe'u syfrdanwyd gyda'r darganfyddiadau, yn arbennig o gofio beth yw effaith negyddol gormod o siwgr ar y corff a'r dannedd. Bu i'r ymweliad ysgogi trafodaeth frwd ymysg y plant a bu'n addysgiadol i'r staff hefyd!!! Am ryw reswm tydi cynnwys y tun bisgedi ddim mor apelgar bellach!

Ymwelwyr o Batagonia

Mae gan ddisgyblion Ysgol Abercaseg, ers blynnyddoedd, gysylltiad agos â theulu o Batagonia a byddwn yn gyson yn cadw cysylltiad â hwy drwy gyfrwng ebyst. Braf felly oedd cael gweld aelodau'r teulu yn y cnawd wrth iddynt ymweld â'u perthnasau yma yng Nghymru a'u croesawu i'r ysgol atom. Treuliodd Mabon ac Idris ddau ddiwrnod yn yr ysgol a rhoddodd eu mam, Esyllt, gyflwyniad diddorol iawn i holl ddisgyblion yr ysgol ar draddodiadau a threfn bywyd o ddydd i ddydd ym Mhatagonia. Gobeithio eu bod wedi mwynhau gweddill eu gwyliau yng Nghymru a'u od wedi cael siwrne ddiogel yn ôl i Batagonia.



Dyma lun Mabon efo rhai o'r ffrindiau ym Mlwyddyn 2.

Wal Idiomau

Mae ardal allanol yr ysgol bellach yn ofod llawer mwy lliwgar a diddorol na'r hyn ydoedd y flwyddyn diwethaf. Pam hynny? Wel, mae disgyblion yr ysgol wedi trafod a dewis eu hoff idiomau Cymraeg ac wedi creu 'Wal Idiomau' wrth y Brif Fynedfa sy'n eich wynebu wrth i chi gerdded tuag at yr ysgol. Da iawn chi blant – mae'r wal yn werth ei gweld.

Dysgu yn yr Awyr Agored

Un o ddymuniadau disgyblion yr ysgol oedd cael cysgodfan ar yr iard ar gyfer cysgodi yn ystod y tywydd poeth, mochel rhag y glaw a'i ddefnyddio fel dosbarth allanol wrth ddysgu yn yr awyr agored. Wel mae eu dymuniad wedi ei wireddu, a hynny o ganlyniad i garedigrwydd 'Cyfeillion Ysgol Abercaseg' sydd wedi penderfynu cyfrannu'n sylweddol tuag at y gost o brynu'r gysgodfan. Diolch i chi am eich gwaith diflino drwy'r flwyddyn yn cynnal gweithgareddau i godi arian tuag at brynu adnoddau addysgol. Yn sicr bydd y gysgodfan yn cael llawer iawn o ddefnydd gennym.

Mabolgampau

Diolch i bawb a gymrodd ran ac a fynychodd fabolgampau'r ysgol yn ystod wythnos olaf y tymor diwethaf. Bu'n brynhawn difyr o gystadlu a mwynhau mewn tywydd godidog.

Croeso atom

Bu dechrau'r tymor yn gyfnod o nid yn unig groesawu disgyblion bach newydd i'r dosbarth meithrin ond hefyd o groesawu aelodau newydd o staff i'r ysgol. Miss Elli Williams sydd bellach yn dysgu Dosbarth Ffrydlas a Mrs Elli Jones yn dysgu Addysg Gorfforol i ddisgyblion yr ysgol gyda Mrs Lloyd, Pennaeth Ysgol Pen y Bryn yn Bennaeth Strategol ar yr ysgol tra bydd Miss Thomas i ffwrdd ar secondiad. Dymunwn yn dda iddynt i gyd yn yr ysgol gan obeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

Ysgol Pen-y-bryn

Diwrnod trosglwyddo

Cafwyd diwrnod trosglwyddo llwyddiannus unwaith eto gyda'r plant yn mwynhau yn eu dosbarthiadau newydd.

Gelli Gyffwrdd

Caswom ddiwrnod arbennig o dda yn Gelli Gyffwrdd ar 16 Gorffennaf er y glaw!! Da iawn blant am ymddwyn mor dda!

Blwyddyn 5

Cafodd plant blwyddyn 5 ddiwrnod buddiol iawn yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar 15 Gorffennaf. Cawsant wers Gerdd, Cymraeg, Technoleg Gwybodaeth a Daearyddiaeth a'r rheini i gyd yn wersi diddorol a heriol. Diolch o galon i holl staff Dyffryn Ogwen ac yn arbennig i Mrs Mitchelmore.



Cafodd Llywodraethwyr yr ysgol gyflwyniad gwych gan Ela Oliver, Luned Roberts a Dyddgu Jones am y Siarter Iaith. Bu'r genod yn sôn am yr holl waith sydd wedi'i wneud; o'r Dreigiau Doeth i'r Eisteddfod, o'r mynydd Camu Tua'r Copa i'r holiaduron. Yn wir, rydych wedi bod yn ofnadwy o brysur. Roedd y Llywodraethwyr wedi gwirioni efo'ch cyflwyniad a'ch gwaith gwych, yn union fel yr oedd Mr Dewi Jones, y Pennaeth Addysg, yn yr Eisteddfod!

Ysgol Llanllechid

Croeso
Croeso'n ôl i bawb i Ysgol Llanllechid i gychwyn ar flwyddyn ddiddorol arall! Estynnwn groeso arbennig i blant y Dosbarth Meithrin, sy'n mynychu'r ysgol am y tro cyntaf. Mae pob un ohonynt wedi setlo'n ardderchog erbyn hyn!

Babi newydd!
Llongyfarchiadau i Miss Awen ar enedigaeth Ollie Glyn yn ystod gwyliau'r haf. Bu draw i'n gweld yn yr ysgol yn barod, ac mae Ollie'n ddigon o'r sioe!

Dyweddïo
Llongyfarchiadau i Miss Kathryn ar ei dyweddïad yn ystod yr haf. Roedd y ddau mewn tŷ bwyta mewn ogof anhygoel ym Meccsico ar y pryd!!

Nain!



Llongyfarchiadau i Mrs Mona MacDonald ar ddod yn nain unwaith eto. Ganed merch fach i Emma, sef Awel Haf. Pob dymuniad da i'r teulu bach! Llun i ddod dydd Llun

Croeso'n ôl!
Croeso'n ôl i Mrs Margaret Jones i'r ysgol wedi cyfnod o salwch. Mae'n braf ei gweld yn ôl yn y gegin ac yn edrych mor dda.

Diolch
Derbyniwyd rhoddion hael i'r ysgol yn ddiweddar. Cafwyd rhodd gan Mrs Pearl Midwinter, Trefor a Heddwyn a'r teulu er cof am eu mam, Mrs Jean Morris, - cymeriad tu hwnt o annwyl a hoffus, a fu'n gweithio am flynyddoedd yn y gegin yn ystod y chwedegau a'r saithdegau. Gwerthfawrogir y rhodd yn fawr. Diolch hefyd i Mrs Alison Jones am rodd o'r Royal Oak.

Cydymdeimlo
Gyda thristwch y clywsom y newyddion am golli dwy o gyn aelodau o staff Ysgol Llanllechid. Yn ystod yr haf bu farw Mrs Dyddgu Owens, Rhiwlas, a fu'n dysgu yma am sawl blwyddyn. Mae llawer yn ei chofio am ei gwybodaeth arbennig am fyd natur, - yn arbennig adar. Cydymdeimlwn â Mr Derfel Owens a'r teulu yn eu profedigaeth.

Hefyd, ar ddiwedd yr haf, bu farw Mrs Ettie Evans, a fu hefyd yn gweithio yn Ysgol Llanllechid. Cofir amdani fel aelod annwyl o staff y gegin am nifer o flynyddoedd. Cydymdeimlwn â Mr Evans a'r teulu, ac yn arbennig Martha, Elis a Begw ar golli nain annwyl.

Cylch Meithrin Llanllechid
Cofiwch bod Cylch Meithrin Llanllechid ar agor bob bore a phrynhawn. Dyma'r oriau:
8.50am - 11.50am
1.00pm - 3.00pm
Cysylltwch â Debbie Griffiths ar 07717534244

Dadorchuddio Cofeb y Cymru

Cafodd Ysgol Llanllechid sylw rhyngwladol yn ystod yr haf, wrth i un o ddisgyblion yr ysgol, Gwydion Rhys, gymryd rhan yn seremoni dadorchuddio Cofeb y Cymry yn Langemark, Fflandrys. Cafodd Gwydion ei ddewis oherwydd perthynas arbennig yr ysgol â Chôr Rygbi Gogledd Cymru, sef côr swyddogol y Cofio. Ei waith oedd darllen hanes tri brawd o Ddyffryn Ogwen a fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd cannoedd o bobl yn y seremoni, gan gynnwys nifer o wleidyddion Cymreig a'r Prif Weinidog, Carwyn Jones. Teithiodd sawl un o Ddyffryn Ogwen draw i'w gefnogi, gan gynnwys ffrindiau Gwydion o'r ysgol, Cerwyn ac Elin Roberts, Mrs Davies Jones a chyn-athrawon yr ysgol: Mrs Mary Jones a Mrs Eirian Jones.

Ar ddiwedd y seremoni, cafodd Gwydion ei gyfweld gan nifer o ddarlledwyr, gan gynnwys Gerallt Pennant (Heno), Dei Tomos (BBC Radio Cymru) a chriw Dechrau Canu, Dechrau Canmol, a oedd yno'n ffilmio rhaglen ar gyfer Sul y Cofio.

Y noson honno, roedd Gwydion ar y llwyfan eto – y tro yma yn canu'r soddgrwth yng nghyngerdd y Côr yn Eglwys Langemark, a gafodd ei hail-adeiladu ar ôl cael ei difrodi'n llwyr yn ystod y Rhyfel. Y tro hwn cafodd rannu llwyfan efo Roy Noble, Rhys Meirion, Dylan Cernyw a'r côr.

Dyweddodd Gwydion:

“Roedd yn anrhydedd cael cynrychioli Ysgol Llanllechid a chael fy nghyfweld gan gymaint o bobl. Bydd y profiad yn fythgofiadwy!”

Rygbi

Adran 1 Gogledd

Dolgellau 23 – Bethesda 28

Chwaraewyd gêm gynghrair gyntaf y tymor newydd i ffwrdd yn Nolgellau ar brynhawn heulog braf. Y tîm cartref ddechreuodd orau gan roi pwysau drwy eu blaenwyr mawr ac ildiodd Bethesda gais ar ôl 5 munud o'r gêm.

Parhau wnaeth y pwysau drwy gydol yr hanner cyntaf wrth i'r ymwelwyr gicio'n wael a methu creu symudiadau bygythiol. Ar y llaw arall, roedd amddiffyn Bethesda'n gadarn iawn yn gwrthsefyll ymosodiadau Dolgellau.

Ym munudau olaf yr ail hanner aeth y tîm cartref ymhellach ar y blaen drwy 2 gôl gosb gan wneud y sgôr ar yr egwyl yn 11 pwynt i 0. Stori wahanol iawn gafwyd yn yr ail hanner wrth i Bethesda ddal gafael ar y bêl yn hytrach na'i chicio i ffwrdd.

Ar ôl 5 munud o'r hanner llwyddodd mewnwr newydd Bethesda, Jarred Mitchell, i dwyllo amddiffyn Dolgellau a sgorio cais yn agos i'r pyst. Ciciodd y maswr Mathew Parry'r trosiad.

Ymhen 5 munud arall croesodd ail reng Bethesda, David Buckley am gais yn dilyn cyfnod da o basio rhwng olwyr a blaenwyr. Ciciodd Parry'r trosiad unwaith eto.

Parry oedd y nesaf i sgorio cais gan lithro heibio olwyr Dolgellau cyn ychwanegu 2 bwynt arall gyda'r trosiad.

Gyda Bethesda'n llwyr reoli, dangosodd Mitchell ei gryfder wrth sgorio'i ail gais gan roi cyfle arall i Parry ychwanegu at y sgôr. Roedd y pedwerydd cais yn fodd i ennill pwynt bonws i'r ymwelwyr. Gyda 10 munud i fynd roedd y gêm ar ben i'r tîm cartref a gwnaeth Bethesda nifer o newidiadau i'r tîm.

Collwyd y dwyster a daeth Dolgellau yn ôl i'r gêm gan sgorio 2 gais yn hwyr yn y gêm i ennill pwynt bonws am ddod o fewn 7 bwynt i sgôr y buddugwyr.

Buddugoliaeth foddhaol iawn felly ond rhaid cofio mai gêm gyntaf y tymor oedd hon a bydd y timau i gyd yn gwella ymhen rhai wythnosau.

CLWB PÊL-DROED BETHESDA TYMOR 2014-2015

Dan ofal ei Reolwr newydd, Jason Scott, mae'r tîm yn cryfhau ac ar ôl chwarae 5 gem.

Dyma'r canlyniadau : colli 2 gêm oddi cartref, curo 2 gêm gartref a churo 1 gêm oddi cartref. Cychwyn difai.

Mae gan y Clwb dîm ieuencid y tymor hwn, a byddant yn ymarfer bob Nos Fercher am 6.00 o'r gloch ym Mharc Meurig. Diolch i'r criw bach diwyd am bob cymorth. Bydd croeso i unrhyw un sydd yn fodlon helpu mewn unrhyw ffordd.

Gêm Gwpan ddydd Sadwrn 20 Medi: Bethesda v Glan Conwy am 2.30 a gêm Gwpan 27 Medi: Helygain v Bethesda.

CRICED

PENCAMPWYR A DYRCHAFIAD

Mae hi bron yn bentymor yn y byd criced, ac mae'n braf clywed y newyddion da o Barc Villa.

Gydag un gêm yn weddill mae tîm cyntaf Bethesda wedi llwyddo i gipio pencampwriaeth adran 2 o Gynghrair Gogledd Cymru. Yn sicr bu gweld nifer o chwaraewyr yn troi yn ôl at y clwb eleni yn hwb garw i'r ddau dim. Dywedodd Nic Parry, y capten, ei fod wrth ei fodd gyda'r tymor a diolchodd i'r hogiau am roi o'u hamser i sicrhau llwyddiant.

Mae'r ail dîm hefyd wedi llwyddo i ennill dyrchafiad o Adran 5. Ni fydd eu tymor hwy yn gorffen tan 20 Medi, ond mae'n debygol mai gorffen yn ail yn y gynghrair y byddant. Roedd Rhys Pritchard, y capten, wrth ei fodd ac yntau am ddiolch am ymdrech yr hogiau, wedi tymor mewn cynghrair anodd ac ansefydlog oherwydd agwedd wael nifer o dimau o'i mewn.

Wrth edrych ymlaen am y tymor nesaf bydd rhaid wrth bendantwrydd a chryn ddyfalbarhad ar ran y timau wrth i safon y chwarae godi.

S4C

Clwb
12.30
Bob prynhawn Sul

Cyffro byw, uchafbwyntiau
a thrafod. Llond gwlad o
chwaraeon mewn un lle.

s4c.co.uk

S4C Clic

S4C

Becws
8.25
Bob nos lau

Cyfes goginio newydd gyda
Beca Lyne-Pirkis, un o sêr
The Great British Bake Off.

s4c.co.uk

S4C Clic